

ECO'R WYDDFA

RHIF 92

MAI 1984

Pris: 20c

MERCHED YN BENNAF

YDYNT, mae merched dawnus y fro wedi meddiannu tudalen flaen y rhifyn hwn.

Ymhen mis bydd Ffion Jon Williams o Lanrug yn canu mewn tair cystadleuaeth – unawd, unawd alaw werin ac unawd cerdd dant dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Pan ymwelodd yr Eisteddfod â'r Wyddgrug ddiwethaf – ym 1958 roedd Menna Pritchard (yr adeg hynny), mam Ffion, yno'n cystadlu ar yr unawd (cyntaf), deuawd (gyda Georgina Hudson o Ddeiniolen – cyntaf) ac ar yr alaw werin (ail) rhwng 15-18 oed.

Dymuniadau gorau i Ffion ac i bawb o'r fro sy'n cystadlu yn yr Wyddgrug.

Ar achlysur Cyfarfod Cyffredinol

Blynnyddol Sioe Frenhinol Cymru yn Glynllifon ar Mai 17 bydd Moira Ellis o Frynrefail yn rhoi arddangosfa o'r grefft o nyddu gwlân â throell. Bydd hefyd yn gwneud yr un peth yn y Sioe ei hun yn Llanelwedd fis Gorffennaf.

Dim ond ers y Nadolig y mae Moira, a fu unwaith yn fyfyrwraig yng Ngholeg Celf Bolton yn dysgu gwehyddu yn nyddu â'r droell Ashford a welir yn y llun.

Mae Moira yn prynu'r cnu gan ffermwyr lleol a dywed y cymer tua 30 awr i nyddu un ohonynt cyn dechrau gwau. Mae'n aelod o Gymdeithas Nyddu a Gwau Bangor, a Chymdeithas Glynllifon.

MODEL O FETHEL



Llinos yn mwynhau'r heulwen yn nhawelwch ei gardd ym Methel ar ôl prysurdeb y ffilmio yn heulwen Sbaen. (Trowch i dud 12 am y stori).

CANTORES O LANRUG



Ffion sydd ar ei ffordd i'r Wyddgrug — a'i mam Menna sydd eisoes wedi gwneud ei marc yno — 26 mlynedd yn ôl!

CREFFTWRAIG O FRYNREFAIL



Moira yn rhoi arddangosfa o'i dawn i nyddu â'r droell i ffotograffydd yr Eco.

ECO'R WYDDFA

RHIF 92
MAI 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CŴM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams, 6 Rhyd-
adog, Deiniolenni (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Miss Jane Morris, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg
MAI 31

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH
MAI 22

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CÔR CYDWLADOL IEUENCTID DROS HEDDWCH

Annwyl Syr,

Rydych yn gwybod yn barod, o
bosib, mai Blwyddyn Ryngwladol
yr Ieuenctid yw 1985, a bwriad nifer
ohonom sy'n fyfyrwyr Coleg
Prifysgol Cymru, Aberystwyth yw
trefnu 'Côr Cydwladol Ieuenctid
dros Heddwch' a fydd yn cwrdd
adeg y Pasg 1985. Hwn fydd ein
cyfraniad i ddatblygiadau'r
flwyddyn, ac i ddangos ar yr un pryd
ein hawydd ni i sicrhau dyfodol
heddychlon.

Drwy anfon llythyron at
Brifysgolion, corau a chyfeilldrefi ar
y cyfandir, a manteisio ar y
cysylltiadau personol sydd gennym
eisoes, gobeithiwn gasglu rhyw 50 o
gantorian tramor at ei gilydd i ddod
i gyd-ganu gyda Chymry ifanc.
Cynhelir cwrw hyfforddi'r côr rhwng
y 12-19 o Ebrill 1985 yng Ngwersyll
yr Urdd, Llangrannog, ac mae Mr
Alun Guy, arweinydd adnabyddus
ledled Cymru, wedi cytuno i fod yn
arweinydd. Yn ystod y dydd fe
fyddwn yn ymarfer yn ddyfal, a'n
gobaith yw y byddwn wrth
gyd-weithio fel hyn yn medru ennyn
cyfeillgarwch rhyngom ni ac
ieuenctid gwledydd eraill y byd
drwy gyfrwng cerddoriaeth.
Byddwn yn rhoi tri chyngerdd
gyhoeddus fel rhan o raglen y Côr -
un yn Aberystwyth, un mewn
canolfan yn y Gogledd, ac un yng
Nghaerdydd. Mae'r ymateb hyd yn
hyn wedi bod yn galonnog ond bydd
cryn waith caled ac ymroddiad dygn
cyn dod â'r maen i'r wal.

Ein nod yw medru 'gwahodd' y
tramorwyr i Gymru, a thelerau'r
gwahoddiad fydd ein bod ni'n mynd
yn gyfrifol am dalu am lety, bwyd,
teithio ag ati - unwaith iddyn nhw
gyrraedd Caerdydd. Amgaeaf gopi
o'r amcangyfrif ariannol i chi gael
syniad o faint y gost.

Pwrpas y llythyr hwn felly yw
apelio yn garedig arnoch am
gefnogaeth i'r fenter, fel y gallwn
gael sylfaen ariannol digonol i fynd
ymlaen â'r trefniadau. Byddai pob
cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n
fawr, a'n bwriad yw rhoi gwybod
maes o law i'n noddwyr am
drefniadau pellach rhaglen y côr.
Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw
arian yn weddill ar ôl yr achlysur,
gan y bydd angen ymdrech fawr i
gyrraedd y nod a osodwyd gennym,
ond os bydd unrhyw swm yn weddill
fe'i neilltuir i osod y Côr Cydwladol
ar seiliau mwy parhaol.

I gloi, hoffwn ddyfynnu englyn a
gyfansoddwyd yn arbennig i'r Côr
Cydwladol gan Mr Arfon Williams:

Gyfeillion, rhoddwn lonydd i'n harfau
A ffurfio 'da'n gilydd
Gôr all hudo'r holl wledydd
O afel rhyfel yn rhydd.

Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed
oddi wrthyh.

Yn gywir,
Branwen Cennard,
Ystafell 1
Neuadd Pantycelyn,
Aberystwyth

YMATEB I LUN

Roedd y llun o 'Cae Tai',
Deiniolen yn rhifyn Ebrill yn
dangos achlysur agor siop
newydd y C.W.S. Mr Thomas
Jones oedd y rheolwr a Mr John
Hughes, Cae Main, oedd yn
ysgrifennydd. Cafwyd parti i'r
aelodau a'u plant. Roedd y
seindorf yn bresennol yn
cynnwys tad Mr W.O. Williams
(gohebydd Deiniolen). Fy ngŵr,
Mr Math Evans oedd yr
arweinydd.

Yn gywir,
Jenny Evans.
31 Rhyd Fadog,
Deiniolen.

ATGOFION AM GLWT-Y-BONT

Annwyl Olygydd,

Diolch o galon i Mrs Buddug
Griffiths, am ei hatgofion am ardal
Clwt y Bont. Cefais bleser mawr wrth
ei darllen, a daeth llun o atgofion yn ôl i
minnau am yr hen ardal.

Roeddym fel teulu Bryn Sinc yn
gyfeillion mawr â theulu Buddug ym
Mryn Du Uchaf.

Mae'n chwith gweld heddiw y
newid sydd wedi digwydd yn ystod y
blynyddoedd yn yr ardal.

Cofiaf am y tyddynod bach oedd ar
bwys y Bigil ac roeddwn yn adnabod
pawb oedd yn trigo ynddynt a phawb
yn byw yn hapus gyda'i gilydd.

Dyma enwau y tyddynod sydd
erbyn hyn ond murrddunod: Hafod
Gân, Bryn Du Uchaf (cartref Buddug),
Bryn Du Isaf, Fron Goedig, Pencraig,
Plas Tirion, Ty'n y Fawnog, Siambar
Glos, Y Gors, Hen Lôn a Bryn Sinc.

Diolch i Wil Sam Griffiths, un o
hogia Clwt y Bont am hanes y gêm
derfynol yn Llanrug. Roeddwn yn y
cae y nos Wener fythgofiadwy
honno.

Edrychaf ymlaen am y rhifyn nesaf
am ychwaneg o atgofion.

Ifor Williams,
(Bryn Sinc gynt)

Llanrug.

DIOLCH

Annwyl Olygydd,

Dymunaf drwy gyfrwng eich
papur, ddiolch i drigolion Llanberis
a'r cylch a hefyd ffrindiau ledled y
byd, am bob arwydd o
gydymdeimlad a charedigrwydd yn
y golled a'r brofedigaeth lem a
ddaeth i'n rhan o golli Siân mor
frawychus o sydyn. Bydd cyfanswm
eich rhoddion, sef £844.40, yn
mynd i Gronfa Arennau Llanberis
a'r Cylch. Mae ymgyrch ar gychwyn
i godi arian i sefydlu uned fechan
Dialysis yn Ysbyty Gwynedd ym
Mangor, a bydd hon ynghlwm wrth
Uned Ysbyty Glan Clwyd ym
Modelwyddan.

Diolch o galon,
Alwyn, Meira a'r plant a'r teulu oll,
Tŷ'r Ysgol,
Llanberis.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR (W.E.A.)

Bydd y rhai hynny ohonoch yng
nghylch Eco'r Wyddfa sy'n
ymddiddori yn ein gwaith yn falch o
glywed fod Cangen newydd o'r
Gymdeithas wedi ei ffurfio yn yr
ardal.

Mae yma nifer o ddosbarthiadau
unigol ers blynyddoedd, wrth gwrs,
ond o hyn ymlaen bydd y
dosbarthiadau hyn yn cydweithio â'i
gilydd i gynnal ambell i weithgaredd
- e.e., darlith, ymweliad â mannau
diddorol, ysgol undydd, neu
weithgarwch arall. Bydd cylch y
Gangen, yn fras, yn cynnwys
pentrefi cylch Eco'r Wyddfa a thref
Caernarfon.

Y cyfarfod cyntaf dan nawdd y
Gangen fydd Cwrs Undydd ym
Mhlas Tanybwlich, Maentwrog, ar
Fai 19, ar y testun 'Cynefin',
Creaduriaid a Geiriau' gyda Mr E.
Breeze Jones a'r Dr Gwyn Thomas
(gweler y manylion yn y rhifyn hwn).
Bydd yn rhaid cael yr enwau a'r
arian ymlaen llaw). Bydd y cyfarfod
hwn, a holl gyfarfodydd y Gangen,
yn agored i bawb o'r cylch sy'n
ymddiddori ym maes addysg
oedolion.

Enwau swyddogion y Gangen
newydd yw - Cadeirydd: Catrin
Pari Huws, Ynys Wen, 58 Hen
Walia, Caernarfon; Is-gadeirydd:
Jim Parry, Hyfrydle, Lôn Parc,
Caernarfon; Trysorydd: Trefor
Jones, Rhosfryn, E. Twthill,
Caernarfon; Ysgrifennydd: Gillian
V. Morris, Annedd Wen, Talybont,
Llanrug.

Drwy greu mwy o gyswllt, felly,
rhwng dosbarthiadau ac unigolion,
rhwng ein haelodau ffyddlon ac
aelodau newydd, fe fydd mwy o
gyfle i drafod gwaith y Gymdeithas
yn lleol, i feithrin syniadau newydd,
ac i ennyn mwy o gefnogaeth yn
gyffredinol.

A ninnau'n Gymdeithas sy'n
dibynnu cymaint ar gysylltiadau
lleol, mae angen pob cymorth os
ydym am barhau i gynnig cyrsiau
amrywiol a diddorol yn y dyfodol.

Ifor Baines
(Athro-Drefnydd)

DIOLCH I JOHN

Annwyl Olygydd,

Drwy gyfrwng eich papur hoffwn
ddiolch i Mr John Roberts, The
Lodge, Tregayan, ger Llangefni am
ei rodd anrhydeddus o £304 tuag at
Gronfa'r Arennau, Llanberis a'r
Cylch. Bu John, sy'n gweithio yng
Ngorsaf Drydan Dinorwig, yn mynd
o amgylch ei orchwylion dyddiol am
fis cyfan gydag ond hanner ei farf.

Ar ran Pwyllgor Cronfa'r
Arennau Llanberis a'r Cylch,

Diolch yn fawr John.

Jane Morris (ysg.).

3 Pen y Bont,
Llanberis.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael:
£5 - Di-enw, Llanberis; Mr J.
Peris Roberts, 11 Maes Eilian,
Dinorwig.

£1: Di-enw, Llanrug
£1 - Mrs Beti Rees Evans, Teras
Minafon, Llanberis; Mr John
Roberts, 2 Maes Eilian; Di-enw,
Deiniolen.

LLYTHYRAU *parhad*

NEGES EWYLLYS DA IEUENCTID CYMRU Mai 18, 1984

Annwyl Olygydd,

Amgaeaf gopi o'r 63ain Neges Ewyllys Da gyda'n cyfarchion a'n dyhead gwirioneddol am heddwch drwy'r byd.

'Plant y Byd' yw thema Gwasanaeth Ewyllys da 1984. Dŵr, serch hynny, yw thema arbennig y Neges. Darllenwch hi. Er mor frawychus yw'r ffeithiau, mae ateb syml ac ymarferol i'r sefyllfa drychinebus sy'n bodoli yn rhai o wledydd tlawd y byd. Apeliwn arnoch i ymateb i'r Neges drwy anfon cyfraniadau (gwneler sieciau'n daledig i Urdd Gobaith Cymru) i ni yn y cyfeiriad isod. Byddwn ninnau wedyn yn trosglwyddo'r cyfan i UNICEF (United Nations Children's Fund) sydd eisoes wedi adeiladu rhai gwahanol sustemau i gyflenwi dŵr i rai o'r pentrefi yn y gwledydd hyn. Mae rhaglen waith a gyst £5,000,000 ganddynt dros y ddwy flynedd nesaf, i gwblhau y gwaith.

Mawr hyderwn y cefnogwch yr apêl. Fel y cytunwch, rwy'n siŵr, mae'n gynllun sy'n haeddu'n sylw a'n hamser — amser sydd mor argyfyngus o brin i blant y gwledydd hyn.

Gyda llawer o ddiolch,

John Gwyn Jones.

Ysgrifennydd,

Swyddfa'r Urdd,

Aberystwyth.

Tra'n bod ni'n cael cawod, yn rhoi'r tecell i ferwi, ac yn yfed dŵr glân croyw, mae 12,000,000 o blant dan 5 oed yn marw bob blwyddyn. Prinder dŵr glân yw achos y mwyafrif helaeth o'r marwolaethau hyn.

Darllenwch Neges Ewyllys Da plant Aelwyd Orllwyn Teifi, Cylch Llandysul, Dyfed, Cymru.

"Mae'n amser codi", gwaeddodd ei mam, a dyma Nia allan o'r gwely, mewn byr o dro, ac i'r ystafell ymolchi. Trodd y tap i gael dŵr i ymolchi. Llanwodd y fowlen ond roedd y dŵr yn frown i gyd. "Gad iddo redeg am dipyn, fe wnaiff glirio cyn bo hir" meddai'i mam. Gwir a ddywedodd. Ymolchodd Nia yn lân ac yna glanhaodd ei dannedd. Heb feddwl eilwaith rhedodd i lawr y grisiau i gael llond bol o frechwast blasus.

Tair mil o filltiroedd i ffwrdd yn y Swdan, mae mam yn galw ar ei merch "Raja, cwyd a dos i nôl dŵr i'r tŷ". Cododd Raja yn flinedig oddi ar fat ar y llawr pridd. Cydiodd yn y piska'i lusgo tua'r pwll llonydd. Pan gyrhaeddodd roedd eraill yno o'i blaen wrthi yn codi dŵr. Dŵr brown ydoedd yn llawn budreddi. Ond nid oedd modd cael gwared o'r llygredd yn hwn. Llanwodd Raja'r piser â'r dŵr gwenwynig a'i gario adref.

Dyma ni blant Cymru yn galw ar blant y byd i gydweithio â ni i gynorthwyo plant y Trydydd Byd i gael dŵr glân. Dŵr yw hanfod pennaf bywyd. Ni allwn fyw hebddo a gwyddom fod dŵr wedi ei lygru yn berygl i fywyd. Mae miliynau o blant yn dihoeni a marw oherwydd y diffyg hwn. Wrth droi'r tapiau yn ein tai cyffyrddus, boed i ni gofio am y gwledydd hynny lle nad oes dŵr glân. Ymunwch yn ein hymgyrch i brynu ffynhonnau. Gadewch i ni weithredu ein Hewyllys Da ni, i

sicrhau dŵr glân a bywyd iddynt hwy.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Annwyl Olygydd,

Un o gyfraniadau gwerthfawr y Papurau Bro yw'r modd y maent yn clymu cymunedau â'i gilydd, gan greu ymwybyddiaeth a chyd-ddealltwriaeth am fywyd yr ardal.

Hyn hefyd yw un o fwriadau Cymorth Cristnogol ar lefel ehangach wrth geisio pontio'r berthynas rhwng pobl a'i gilydd i'w galluogi i gyd-dynnu mewn cynlluniau o hunan-help o fewn eu cymunedau yn y gwledydd tlawd.

Dros y blwyddoedd llwyddwyd drwy'r amrywiol gynlluniau a gefnogwyd yn y Trydydd Byd i feithrin hunan barch i bobl yn eu cymunedau. Hyderwn eich bod yn awyddus i'r gwaith da hwn barhau, gwahoddwn chwi yn gynnes iawn felly i ddangos hyn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (Mai 14-19). Thema'r Wythnos yw 'Gwaith Da' gan ein hatgoffa am lwyddiant yr hyn a wnaed cynt a'r cyfle a roddir i ni sicrhau bod y 'gwaith da' hwn yn mynd yn ei flaen er mwyn cyrraedd cannoedd o gymunedau tlawd ac afiach yn y Trydydd Byd.

Ymunwch â ni yn ein hymgyrch ym mis Mai wrth gynnal gweithgareddau lleol a thrwy ymateb yn hael i'r casglyddion a fydd yn dod o gwmpas eich ardal. Dyma fydd eich 'gwaith da' chwithau wrth bartneru â'r difreintiedig — felly rhoddwn i'r gwaith lwyddo.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol y llynedd yng Nghymru casglwyd dros £216,000. Mae'r cyfraniad ardderchog hwn yn dra chalonogol, ac eto yn her inni wneud yn well eleni. Bydd yr hyn a gesglir yn fodd i roi tecach a glanach byd i filoedd o'n cyd-ddyn.

Gwnawn ein gorau fel y caiff eraill gyfle newydd i fwynhau breintiau bywyd ym mrodd a threfi'r Trydydd Byd.

Gyda phob dymuniad da i'r holl ddarllenwyr.

Yn ddiffuant iawn,

Wynn Vittle

Ysgrifennydd Cymru.

Cymorth Cristnogol

27 Heol yr Eglwys

Yr Eglwys Newydd

Caerdydd CF4 2DX

Ffôn: Caerdydd 614435

DIOLCH AM GEFNOGAETH BRO

Annwyl Olygydd,

Ar ran Parti 'Lleisiau'r Gweunydd' hoffwn ddiolch yn fawr i drigolion bro'r Eco am eu cefnogaeth hael i'n cyngerdd gyda Gari Williams a Hogia Llandegai yn Neuadd Rhiwlas yn ddiweddar. Roedd yn noson eithriadol o lwyddiannus gyda'r neuadd dan ei sang, ac yn ôl pob tystiolaeth roedd pawb wedi mwynhau'r cyngerdd yn fawr. Bwriedir cynnal cyngerddau cyffelyb yn flynyddol o hyn ymlaen.

Diolch yn rhannol i lwyddiant y noson mae'r Parti bellach wedi llogi Stiwdio Sain er mwyn gwneud record a fydd ar werth cyn yr haf (gobeithio!).

Diolch unwaith eto i bawb am eu cefnogaeth a'u diddordeb yn y parti.

Yn gywir,

Mary Elliott (Ysgrifenyddes)

Crud y Wawr

Penisarwaun

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir
(Llanberis 870671)

SGETS A DRAMA — Nos Iau Ebrill 12, cafwyd perfformiad o Sgets a Drama gan Ieuencid Dinorwig, a pharti o chwiorydd yn y Ganolfan. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr iawn gan y gynulleidfa. Cymerwyd rhan yn y Sgets gan Miss Olwen B. Roberts, Dona Jones, Delwen Williams, Anwen B. Jones, Rita Wood, a Robat Williams, ac yn y ddrama. 'Perthyn Pell' oedd y ddrama, a'r awdur Mrs Gwladys Evans, Sw'n yr Awel, Gallt y Foel. Cymerwyd rhan ynddi gan Mrs Betty L. Roberts, Mrs Irene Morris, Mrs Katie L. Hughes, Mrs Medwen Griffiths, Mrs Nellie Williams, a Mrs Megan Morris. Y cynhyrchydd oedd Mrs Ellend Wyn Jones. Yn ystod y noson cafwyd detholiad ar y piano gan Miss Olwen B. Roberts, a chafwyd nifer o ganeuon gan y gynulleidfa. Llywyddwyd y noson gan Mrs Hugh Thomas, a Mr Thomas a Mr O.R. Williams dalodd ddiolch i'r

cwmni am eu gwasanaeth.

DIOLCHIAU — Dymuna John a Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig, ddiolch o galon i'r teulu, a'r cymdogion, a'r ffrindiau oll am y cardiau, a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian. Diolch i bawb.

Dymunwn ddatgan ein diolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atom ar achlysur dathlu ein Priodas Ruddem ar Ebrill 6. Ann a John Roberts, 3 Maes Eilian, Dinorwig.

86 OED — Dathlodd Mrs Mary E. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig, ei phen blwydd yn 86 ar Ebrill 9. Llongyfarchiadau iddi a phob lwc ymlaen eto.

YN YR YSBYTY — Bu Mr Ifan B. Roberts, Ty'r Ysgol, Dinorwig, dan archwiliad meddygol yn Ysbyty Broadgreen, yn ddiweddar. Da deall ei fod yn gwella.

Ein cofion at bawb sy'n cwyno yn eu cartrefi. Gwellhad buan a fyddo iddynt.

YSGOL DINORWIG DDIWEDD Y 20au



Llun o ddisgyblion Ysgol Dinorwig tua'r flwyddyn 1928. Ein diolch i Mr J.G. Owen, 73 Tre Gof, Caernarfon am ei anfon atom. Cofia Mr Jones mai W.D. Jones oedd yr ysgolfeistr ar y pryd.

CYSYLLTIAD AMERICANNAIDD

Daeth llythyr i law oddi wrth George Chambers Williams (yr ieuengaf) o Chattanooga, Tennessee yn dweud ei fod am ymweld â bro'r Eco yn nechrau Mai fel rhan o'i fis mêl. Bydd yn aros yn Llanberis neu yn y Fachwen, oherwydd yma mae ei wreiddiau. Yn ôl Mr Williams, ymfudodd ei daid, sef Thomas Robert Williams i Virginia tua 1879 i weithio yn chwareli llechi Arvon. Beth amser yn ôl cyhoeddodd yr Eco lun a

dynnwyd gan Angus McDermid o garreg fedd Thomas Robert Williams ym mynwent Arvon.

Mae Mr Williams yn awyddus iawn i gysylltu ag unrhyw berthnasau sy'n dal i fyw ym mro'r Eco.

Fel un sy'n gweithio i Awdurdod Dyffryn yr Afon Tennessee fel archwiliwr adeiladwaith, mae ganddo ddiddordeb mawr yng nghynllun Trydan Heidro Llanberis.

Yn awr dan berchenogaeth

GWYNETH ROBERTS

Siop

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

LLANBERIS

Gohebydd: Miss J. Morris, Rallt Isaf, 3 Penybont, Ffordd Capel Coch. Ffôn Llanberis 871561.

(Ein diolch i Jane am ymgymryd â'r gwaith o ohebu newyddion y pentref. - Gol.)

CASGLIAD DA - Dymuna Mrs Dorothy Jones, trefnydd y casgliad at Dr Barnado's ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, i'r casglyddion ac i'r ardalwyr am eu cefnogaeth. Casglwyd y swm anrhydeddus o £100.

MULTIPLE SCLEROSIS - Trefnwyd noson o ddiffrwch yng Ngwesty'r Gwynedd yn ystod y mis gan Mrs Mamie Evans, Caernarfon (gynt o Siop Ferndale). Gwnaed elw o £115. Dymuna Mrs Evans ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, ac i William Roberts a Carys Hughes am yr help a gafwyd ganddynt ar y noson.

YN GWELLA - Eto y mis hwn, mae amryw o'r pentrefwyr yn yr ysbyty, a rhai yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Deallwn fod rhai wedi dychwelyd adref. Dymunwn adferiad llwyr yn fuan iawn i'r oll ohonynt, boed hwy yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi:

Mr William Roberts, Stryd Goodman; Mr Dennis Hughes, Tan-y-Pant; Mr Bertie Parry, Stryd Newton; Miss Lynne Parry, Plas Eilian; Mr Eddie Williams, Llainwen Isaf; Mrs Barbara Jackson, Llainwen Uchaf; Mrs Thomas Evans, Caledfryn; Mrs Nell Jones, Pentrecastell.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Croesawyd Mr Robin Williams o Goleg Glynllifon, a chafwyd sgwrs addysgiadol iawn ganddo ar sut i edrych ar ôl planhigion. Diolchwyd iddo, ac i'r gwestwragedd, gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs Gwen Edwards, Mrs Katie Morris a Mrs M.W. Thomas.

CYMRAES FACH NEWYDD - Ddydd Llun, Mawrth 26 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ganwyd merch fach i Hefin a Sheila, Grone House. Ei henw yw Rebecca Louise, ac mae yn chwaer fach i Rachel a Sarah. Llongyfarchiadau i chi Sheila a Hefin, a bendith i'r Gymraes fach newydd.

DYWEDDIO

Eirian ac Eric - Llongyfarchiadau i Eirian, merch Mrs Nellie Morris a'r diweddar Alun Morris, 54 Dôl Elidir, ar ei dyweddïad ag Eric, mab Mr a Mrs Alfie Jones, 32 Henwalia, Caernarfon.

Jennifer ac Alwyn - Llongyfarchiadau eto i Jennifer Ann, merch Mr a Mrs E.B. Jones, Eithnog, Brynsiencyn, ar ei dyweddïad ag Alwyn, mab Mr Wilbert Lloyd Hughes ac Elinor Sera (gynt o Stad Coed y Glyn).

PERSONOL - Llongyfarchiadau a phob dymuniad dai Graham, mab Mr a Mrs William Roberts, Hyfrydle, Lôn Capel Coch ar gyrraedd ei benblwydd yn 21 oed ar Fawrth 26.

SIOP WEDI CAU - Chwithdod mawr i'r ardal fod Padarn Stores wedi cau. Nid yw y perchennog, Mr William Jones wedi bod yn dda iawn ei iechyd ers amser, ond roedd yn dal i roddi gwasanaeth cyflawn iawn i'r ardal. Yn Glan Eilian y sefydlwyd un o siopau cyntaf yr ardal ac yn y 'Postal Directory of Caernarvonshire' yn 1886 mae cofnodi am Glan Eilian fel lle busnes ac 'Apartments'.

Dymunir i William Jones a'i briod, a fu'n gymorth mawr iddo yn y siop ac yn groesawgar iawn a chymwynasgar bob amser, bob bendith a llawer blwyddyn ddedwydd eto yn eu hymddeoliad. Da o beth nad yw'r dda yn gadael yr ardal - cawn eu cwmni a'u

cefnogaeth eto yn y capel a phob achos da arall.

YMDDEOLIAD - Ar ôl 40 o flynyddoedd o wasanaeth yn Siop Fara Penybryn (sydd wedi newid dwylo erbyn hyn), mae Miss Doreen Ward, Maes Padarn yn ymddeol. Diolch iddi am ei chyfarchion dymunol a'i gwen siriol i bob cwsmer bob amser. Diolch hefyd am ei chymwynasgarwch. Ni châl neb fod heb fara ganddi. Pe bai cwsmer wedi anghofio galw am ei fara beunyddiol, deuai Doreen â'r bara i ddrws ei dy. Nid yn aml y gwelwn gymwynasgarwch fel hyn y dyddiau yma. 'Take it or leave it' yw'r arwyddair yn y siopau heddiw. Bu'n ffyddlon iawn i'w mam hefyd, a gwyliodd i'w hanghenion ar hyd ei gwaeledd yn dirion ac addfwyn. Dymuniadau gorau yr holl ardal i chi Doreen, a llawer iawn o flynyddoedd dedwydd a hapus yn y dyfodol.

FFILMIO - Diolch am dipyn o gyffro yn y pentref yn ystod y mis. Bu Cwmni Barcud yn ffilmio i Gwmni Eryri, ac yn creu diddordeb mawr i amryw o'r pentrefwyr. Roedd gweld cymeriadau y rhaglen boblogaidd honno, 'Gwely a Brecwast' a welir ar S4C ar nos Sul, yn cerdded yn hamddenol o 'Westy Jennie May' yn dod â'r rhaglenni yn fyw iawn i lawer o'r pentrefwyr. Roedd y 'locations' a ddarparwyd gan Gwmni Sling, Bethesda yn y 'Banc' - yr 'Estate Agents' yng Nglandŵr, yn creu sefyllfa ddoniol iawn i'r bobl leol. Carwn ddiolch eto i bawb fu ynglŷn â'r holl symudiadau - y cyfan ohonynt am fywiogi'r pentref pe tai ond am awr neu ddwy bob dydd.

Bydd disgwyl eiddgar am y rhaglen newydd hon o 'Wely a Brecwast' a ddangosir ar S4C tua'r hydref.

PERSONOL - Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Pat Williams, Stryd-y-Dŵr, ar golli ei chwaer ifanc, Lorraine, yn Southampton. Deallir iddi fod yn wael ers amser, a dioddefodd afiechyd blin iawn yn wrol a thawel iawn.

TAITH GERDDED - Bu aelodau ifanc Clwb Badminton yr ardal yn llwyddiannus iawn yn eu taith gerdded. Casglwyd £116 ganddynt, a dymuna'r Clwb ddiolch i'r ardalwyr am eu cyfraniadau.

UNDEB Y MAMAU - Daeth cynulliad da iawn ynghyd i gyfarfod y mis o Undeb y Mamau, Eglwys Sant Peris a Sant Padarn. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Betty Humphreys, Nant Peris. Dymunwyd adferiad buan i rai o'r aelodau a'u teuluoedd. Penodwyd dyddiad y trip blyneddol, sef Mai 23.

Y CARNIFAL - Mewn disco yn y Ganolfan cafwyd enwi'r rhai fydd yn gwasanaethu gyda Brenhines y Carnifal - a dyma'r enwau - Y Frenhines, Jackie Sellars; Gweinyddesau, Nia Roberts, Stryd Goodman; Karen Price, Nant Peris a Steven Edwards i gario'r goron.

LLONGYFARCHION i Gethin, unig fab Nettie a Hugh Williams, Stryd Tomos ar ennill Tystysgrif a gyflwynwyd iddo gan D.W. Tisdall, Swyddog o'r Bwrdd Dŵr. Roedd Gethin yn un o ddau a dderbyniodd y dystysgrif gan y Gymdeithas Atal Damweiniau. Cyfarwyddwyd y bechgyn gan Mr Jim Williams.

DATHLU PRIODAS RUDDER - Yn ystod y mis diwethaf bu Catherine a Jim Parry, Stryd Yankee, yn dathlu eu priodas Ruddem. Derbyniwyd llawer o lythyrau, cardiau ac anrhegion gan eu teuluoedd a llu o gyfeillion. Da yw deall hefyd fod Ian Parry yn dal yn galonnog ei ysbryd er ei fod yn fregus ei iechyd ers amser maith. Mae

ganddo ofalaeth gyson a charedig gan ei briod - sydd bob amser yn llawn ei phryder am ei phriod a'i chartref. Dymunir iddynt lawer blwyddyn ddedwydd eto i'r dyfodol.

Y CWMNI DRAMA - Erbyn hyn mae Cwmni Drama Llanberis wedi dod i derfyn eu rhaglen am y tymor. Yn ystod yr wythnosau diweddar maent wedi perfformio y Ffars 'Pedwarawd mewn B Fflat' naw neu ddeg o weithiau, gan deithio ar hyd a lled Cymru o'r Gogledd i'r De, ac maent wedi rhoddi mwyniant a difyrwch i gannoedd o Gymry. Diolch iddynt am roddi cymaint o ddiddordeb mewn mannau diarffordd - mewn pentrefi, lle nad oes llawer o adloniant i'r ifanc na'r canol oed.

Gresyn o beth na chafodd ardal Llanberis berfformiad. Nid oes adeilad addas gennym. Ond carwn ofyn pam nad yw y Cwmni yn cael defnyddio Oriel Eryri? Onid ar gyfer dramâu a chyngherddau addysgiadol y bwriadwyd i'r adeilad yma, oddigerth arddangosfeydd o dro i dro? Os nad yw'r ystafell ar gyfer cyngherddau wedi ei chwblhau onid oes yma un o'r ystafelloedd helaeth sydd yn yr adeilad yn barod i groesawu'r cwmni ar gyfer ymarfer? Maent ar gyfnodau wedi gorfod mynd i Ddinorwig i ymarfer, ac adeilad mor ardderchog ag Oriel Eryri yn wag naw mis o bob blwyddyn.

GWASANAETHAU'R PASG - Ar Radio Cymru Fore'r Groglith, darlledwyd Oedfa Gymun o Eglwys y Parch Edwin Pryce Jones, Llwyn Celyn, Ceredigion. Hefyd, daeth Oedfa'r Bore Sul y Pasg o Lwyn Celyn, gyda'r Parch Edwin Pryce Jones, yn pregethu. Arweiniwyd y cymun gan yr Athro Cyril Williams. Brawd i Mrs R.H. Owen, Wyddfyd, yw y Parch Edwin Pryce Jones, ac yn un o bregethwyr ifanc a godwyd o Eglwys Nant Padarn.

Ni fu yn dda ei iechyd, ond mae wedi gwella erbyn hyn. Dymunir iddo iechyd llwyr yn fuan iawn, ac y cawn glywed ei genadwri werthfawr yn fuan eto.

PRIODAS - Llongyfarchiadau i Ronald Roberts a Sioned Williams o Benygroes ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Mab yw Ronnie i Tom ac Eileen, 83 Maes Padarn. Bydd Ronnie a Sioned yn ymgartrefu yn Stryd Ceunant.

LLWYDDIANT CERDDOROL - Dyna ddaeth i ran Lisa Jane Rudkin, Ger Afon, yn ddiweddar pan fu'n llwyddiannus mewn arholiad Cerdd Gradd 5 (Theori). Ein llongyfarchiadau iddi.

SIOP NEWYDD - 'Maxelles' yw'r enw ar y siop newydd yn y Stryd Fawr. Pob dymuniad da i'r perchnogion Mr a Mrs Meirion Thomas yn eu menter newydd.

GWASANAETH O FAWL - Perfformiwyd 'Y Croeshoeliad' (John Stainer) gan barti o gantorion o'r ardal yn Eglwys Sant Padarn tros Wener y Groglith. Yr unawdwyr oedd Robert Wyn Roberts, Julie Wyn, a'r organydd oedd Geraint Gill.

PRIODAS - Ebrill 21 priodwyd June Wynne, merch Mr a Mrs Gwilym Jones, 88 Maes Padarn, a David Emlyn, mab Mrs Noreen Jones a'r diweddar Mr Cledwyn Jones, Tŷ Mawr, Bethesda. Gwasanaethwyd yn y briodas yn Eglwys Sant Padarn, gan y Parch Richard Jones, y Felinheli, a'r organydd oedd Mr Huxley Thomas.

Cynhaliwyd y wledd briodasol yng ngwesty Gwynedd a daeth saith deg o berthnasau a chyfeillion ynghyd i ddymuno'n dda iddynt.

Dymuna David a June ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, eu dymuniadau da, a'r llu o anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd ganddynt yn cynnwys swm o arian. Byddant yn cartrefu yn Sling, Tregarth.

YSGOL DOLBADARN

CHWARAEON - Ddydd Gwener, Mawrth 16, aeth Tim Pêl-rwyd yr Ysgol i chwarae mewn twrnament i Ysgolion Gwynedd ym Mangor. Roedd wyth o dimau yn cymryd rhan sef yr ysgolion a ganlyn: Bala; Thomas Ellis, Caergybi; Deganwy; Dolgellau; Amlwch; Glancegin, Bangor; Borth y Gest ac Ysgol Dolbadarn. Llwyddodd Tim yr Ysgol yn dda dros ben yn y twrnament drwy ddod yn ail orau i dîm Ysgol Deganwy. Yn y gêm derfynol yn erbyn Ysgol Deganwy, colli o un pwynt yn unig wnaeth Ysgol Dolbadarn. Y sgôr oedd, Ysgol Deganwy 7 pwynt, Ysgol Dolbadarn 6 phwynt. Felly, Ysgol Deganwy a gynrychiolodd Ysgolion Gwynedd yn Ne Morgannwg.

Ddydd Mercher, Mawrth 28 daeth tîm pêl-droed a phêl-rwyd Ysgol yr Hendre, Caernarfon i chwarae yn erbyn tîmau o Ysgol Dolbadarn. Dyma ganlyniadau y ddwy gêm: Pêl-droed: Ysgol yr Hendre 5, Ysgol Dolbadarn 0. Pêl-rwyd: Ysgol Dolbadarn 27, Ysgol yr Hendre 15.

Ddydd Mawrth, Ebrill 3, daeth Tîm Pêl-droed a Phêl-rwyd Ysgol y Gelli, Caernarfon, i chwarae yn erbyn tîmau'r ysgol. Y canlyniadau oedd: Pêl-droed: Dolbadarn 5, Gelli 1. Pêl-rwyd: Dolbadarn 36, Gelli 3.

Ddydd Gwener, Ebrill 6, aeth tîm yr Ysgol i chwarae yn erbyn Tîm Pêl-rwyd Ysgol Llanllyfni. Y sgôr oedd:

Dolbadarn 26, Llanllyfni 17.

Gwnaeth tîm pel-rwyd yr Ysgol yn hynod dda eleni drwy ennill pob un gêm yn y gynghrair.

Diolch i Eirlys Pierce am hyfforddi'r genethod, ac i Mr Teifion Thomas am hyfforddi'r bechgyn.

Dewiswyd Marc Lloyd Williams i



45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

LLANBERIS (parhad)

chwarae yn nhîm pêl-droed Arfon mewn gêm yn erbyn Tîm Meirionnydd ar Ebrill 11. Llongyfarchiadau Marc.

CWIS DIOGELWCH Y FFYRDD – Ddydd Mawrth, Mawrth 27, aeth tîm o'r Ysgol i gymryd rhan mewn cwis yn erbyn Tîm Ysgol Borth y Gest. Tîm Ysgol Dolbadarn a orfu o 27 pwynt i 24 pwynt.

Yn yr ail rownd daeth Tîm Ysgol Nefyn i chwarae yn erbyn tîm yr ysgol. Y tro hwn, Ysgol Nefyn a orfu o 34 pwynt i 29 a hanner pwynt.

Diolch i Mr S. Pritchard am hyfforddi tîm yr ysgol ar gyfer y cwis.

DYCHWELLYD – Balch iawn yw gweld Mrs Nellie Davies, Glanhawraig, wedi dychwelyd i'w gwaith ar ôl cyfnod hir o absenoldeb oherwydd gwaeledd. Hefyd, Mrs E.A. Owen, Gweinyddes Feithrin, wedi dod yn ôl i'r Ysgol ar ôl gwaeledd.

Diolchwn i Mrs M. Rowlands am gyflawni dyletswyddau Mrs Davies tra bu'n absennol o'r ysgol.

CWRS OFFERYNNOL – O ddydd Llun, Ebrill 2, hyd ddydd lau, Ebrill 5, bu tri o blant o'r ysgol, sef, Angharad Rudkin, Marieke Latham a Trystan Thomas ar gwrs offerynnol ym Miwmares.

TEYRNGED I Mrs SIAN B. THOMAS

Daeth cwmwl o dristwch dros yr Ysgol a'r holl fro ddydd Llun, Mawrth 19, pan ddeallwyd am farwolaeth un o'n hathrawon ifanc. Gwaith anodd i mi ar y bore arbennig hwn oedd hysbysu plant Ysgol Dolbadarn o'r newydd fod Mrs Sian B. Thomas wedi ein gadael.

Ym marwolaeth Mrs Thomas, colodd yr Ysgol a'r holl ardal gymeriad nodedig iawn. Fel athrawes, yr oedd yn amryddawn, yn meddu ar allu arbennig i greu â'i dwylo. Hoffid hi gan yr holl blant am ei phersonoliaeth hyfryd a'i hiwmor iach. Oedd, yr oedd Mrs Thomas yn athrawes o'r iawn ryw, yn caru lles ei phlant, ac yn ymddiddori ymhob plentyn fel unigolyn.

Fel prifathro, mae'r golled yn fawr i minnau yn ogystal â'r athrawon eraill. Cefais ym Mrs Thomas gyfaill pur bob amser, yn barod ei chymwynas ar bob achlysur, ac yn bennaf oll yn berson hynod deyrngar.

Ond yn fwy na'r un dawn a feddai, edmygid Mrs Thomas gan fy nghyd athrawon a minnau, am ei gwroldeb, a'i sirioldeb yn ystod cyfnod o dair blynedd o ddiodeff gwaeledd blin a phoenus.

O gychwyn ei gwaeledd gwyddai Mrs Thomas y byddai'n rhaid iddi ddibynnu ar beiriant yr arennau am gyfnod o'i hoed. Ond daliai i fod yn ffyddiog y byddai'n iach rhyw ddydd, a hynny drwy gyfrwng llawfeddyginiaeth o drawsblannu. Yn wir, bu tan un driniaeth o'r math yma, ond ni fu'n llwyddiannus. Serch hynny, daliai i ddisgwyl am gyfle arall.

Yn ystod y blynyddoedd hyn, ni chlywid hi yn cwyno wrth neb. Deuai i'w gwaith gyda rhyw sirioldeb anesboniadwy, a'r ateb a geid i'r cwestiwn 'Sut mae Mrs Thomas heddiw?' oedd bob amser 'lawn, diolch'.

Dyna hanes Mrs Thomas tros gyfnod ei hafiechyd, ffydd a gwroldeb a edmygid gan bawb.

Carwn gyfleu cydymdeimlad pawb o'r ysgol â Mr Alwyn Thomas, ei phriod; Trystan ac Euron, ei phlant; Mrs Myra B. Hughes, ei mam, a'r holl deulu yn eu colled a'u profedigaeth chwerw.

John H. Hughes
(Prifathro)

CERDDORIAETH: Llongyfarchiadau i Sharon ac Iestyn Roberts, 11 Nant y

Glyn, disgyblion i Mr a Mr M. Lloyd ar eu llwyddiant yn eu harholiadau piano dan nawdd Coleg Cerdd Llundain. Cafodd y ddau farciau uchel iawn.

Enillodd Iestyn ddosbarth cyntaf (Gradd 5) a Sharon hithau yn cyrraedd y dosbarth cyntaf hefyd. Pob lwc eto i chi eich dau yn y dyfodol.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymdeithas Llanberis yn Angorfa nos lau, Ebrill 26. Yn absenoldeb Cadeirydd llywyddwyd gan Cledwyn Jones.

Ysbwriel: Bu trafodaeth frwd ar y broblem o'r sbwriel sy'n cael ei adael yma ac acw yn y fro, ac fe wnaed y penderfyniadau canlynol:

1. Fod y Cyngor trwy gydweithrediad ag ysgol Dolbadarn yn trefnu cystadleuaeth posteri cadw'r ardal yn lân.

2. Fod y Cyngor yn ceisio trefnu i osod sgipiau mewn safleoedd addas i bobl daflu sbwriel iddynt.

3. Fod y Cyngor yn bwriadu rhoi'r gyfraith ar droseddwr ac y byddai gwobr i'r person a fyddai'n fodlon tystio i brofi achos.

Cynllunio: Capel Preswylfa – cais i gael caniatad i wneud hetiau dringo ar lawr cynta'r adeilad. Pasiwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cais yn ddiamed. Nid oedd gwrthwynebiad i gais ehangu 4 Stryd Ceunant a chais codi adeilad newydd y Lleng Brydeinig.

Gwrthodwyd cais Mountain Ventures Ltd i ddefnyddio'r Lanfa i'w cyrsiau, gan egluro mai lle i'r cyhoedd i hamddena oedd y safle.

Derbyniwyd cwyn oddi wrth drigolion Llawnwen am gyflwr y ffordd, eglurodd y Clerc iddo eisoes gael ateb ar y mater gan y Cyngor Sir, sef nad oedd lleddu i fod ar Llawnwen ac fod y cynllun o ledu ffordd Tŷ Du wedi ei ohirio oherwydd prinder cyllid.

Llwybrau Cyhoedd: Daeth gwybodaeth fod llwybr ym Mhen Stryd Ceunant wedi ei gau, ac nad oes camau wedi eu cymryd i ail agor y llwybr o Warden drwy Coed Doctor i'r ffordd fawr. Gofynnwyd i Gynghorydd Sir gymryd y ddau gŵyn yma gerbron swyddogion priodol y Cyngor Sir.

Ffordd a Maes Parcio y Ddôl Fawr: Rhoddwyd adroddiad ar drafodaethau a gynhaliwyd rhwng BCCT a'r Cyngor Sir, ac eglurodd y Cynghorydd Francis Jones nad oes penderfyniad wedi ei wneud. Pasiwyd i anfon i Bencadlys y BCCT yn Llundain yn pwyso ar y pwysigrwydd o gadw'r ffordd a chadw maes parcio addas ar gyfer yr ymwelwyr di-ri a ddisgwylir i weld y cynllun.

Defaid: Codwyd unwaith eto broblem feunyddiol o ddefaid sy'n crwydro Llanberis ac yn achosi budreddi a difrod led led y fro. Cytunwyd i anfon y gŵyn ymlaen i Gyngor Arfon.

DIOLCH: Dymuna Mr Bert Parry, 27 Stryd Newton ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau, cymdogion a chyfeillion, meddygon a staff Ward Mona, Ysbyty Môn ac Arfon, y meddygon teulu, a staff Ambiwllans Gwynedd, yn arbennig y Parch Gwynfor Williams, am eu caredigrwydd a'u gofal cyson tra y bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

TLWS Y PRIFARDD: Dymuniadau gorau i Bryn Jones, Dôl Elidir ar ennill Tlws y Prifardd yn Eisteddfod Gadeiriol Mynytho.

LLONGYFARCHIADAU: i Marc Lloyd Williams am ennill medal yn ddiweddar mewn twrnament pêl-droed yn Wrecsam. Mae Marc yn aelod o dîm pêl-droed dan 12 oed Gwryfai.

(parhad ar dudalen 16)

GOLWG AR Y FRO

Mae un o'r manau gorau i fynd iddo i sylwi ar brydferthwch naturiol bro'r Eco yn prysur droi'n arllwysfa sbwriel. Mae pantiau'r manau diarffordd a'r tomennydd yn Clegir wedi denu rhai ar hyd y blynyddoedd i daflu eu hysbwriel iddynt. Ond yn ddiweddar mae'r arferiad cwbl anghyfrifol yma ar gynydd a gwelir bagiau plastig wedi eu rhwygo a'u cynnwys anghynnes wedi ei wasgaru ar hyd ochrau'r lôn mewn sawl lle.

Dyma'r hyn a welodd ffotograffydd yr 'Eco' ddydd Sul, Ebrill 29.



Ysbwriel wedi ei wasgaru ar hyd ymyl y lôn.



Cyrrff rhyddlyd hen geir a pheiriannau ac offer tŷ mewn pant tua hanner canllath o'r ffordd. Y Fachwen sy'n y cefndir ar draws y cwm.



Gellwch fwynhau'r olygfa tua Phen Llyn a'r gogledd ond i chwi edrych dros yr hyn sydd ym mlaen a chanol y llun!

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

EGLWYS SANTES HELEN – Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau nos Lun, Ebrill 2. Cymerodd Mrs B. Mowll y gwaswnaeth a hi hefyd a roddodd y sgwrs ar y testun "Hen Arferion ac ofergoelion". Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn. Rhoddwyd y te gan Mrs O.L. Roberts.

Llongyfarchwn Janice a Geoff ar eu priodas yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Hefyd dymuniadau da i Lenord Naylor.

Cydymdeimlwn â Mr J.O. Pritchard Pensarn a'r plant yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl.

CYDYMDEIMLWN – â Mr R. Hughes, 1 Bryn Hyfryd sydd wedi colli ei fodryb yn Lerpwl.

CLWB YR HEULWEN – Cafwyd cyfarfod dydd Mawrth Ebrill 16. Treulwyd y prynhawn yn gwrandao ar dapiau. Rhoddwyd y te gan Mrs L. Porter a Mrs K. Williams. Enillodd Mrs Porter y raffl a diolchwyd gan Mrs Nesta Jones.

Llongyfarchiadau i Eleri a Richard Glyn ar eu priodas yn Eglwys Santes Helen, ddydd Sadwrn Ebrill 21.

YR EISTEDDFOD

Mae dyddiad yr Eisteddfod Bentref yn agosau. Bydd gwaith o gasglu cyfraniadau ariannol yn mynd yn ei flaen yn ystod yr wythnosau nesaf.



Margaret Heddwen Jones, 33 Bro Rhos, Bethel, ac Irfon Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel ar ôl eu priodas yn Eglwys y Santes Helen yn ddiweddar.

Cofiwch y bydd cystadleuaeth newydd ar gael, sef Parti Cyd-adrodd i Oedolion, (Hunan-ddewisiad), felly ewch ati ar fyrder i ddewis aelodau, ac i hyfforddi'r plant ar gyfer eu cystadlaethau hwythau.



Plant Penisarwaun yn cofio Sul y Blodau.

NANT PERIS

(Mae gweithwyr Eco'r Wyddfa yn cydymdeimlo â theulu'r diweddar Mr T.J. Roberts, Llys Awel yn eu profedigaeth. Cofiwch am gyfraniad Mr Roberts fel gohebydd yr Eco yn y Nant.)

PROFEDIGAETH – Ddydd Mercher, Ebrill 10, yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont, bu farw Mr T.J. Roberts, Llys Awel, wedi cystudd maith a blin. Bu gwasanaeth yr angladd yn Rehoboth Ebrill 14eg a rhoddwyd i orffwys ym mynwent Trefriw. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis, gweinidog, a'r Parch John Owen, Rhuthun, cyn weinidog. Gedy ferch a dau fab a 9 o wyrion ac wyresau a chydymdeimlir â hwy yn eu colled a'u hiraeth. Dyma'r deyrnged a roes y Parch John Owen yn yr angladd:

"Rhyw ychydig dros dri mis yn ôl yr oeddwn i'n sefyll o'ch blaenau o'r blaen, ac wrth baratoi'r deyrnged hon, yr un darluniau a'r un geiriau bron oedd yn dod i mi y tro hwn hefyd. Roedd Perisfab a Thomas John Roberts o'r un anian, yr un genhedlaeth, a'r un diddordebau. Cyfarfyddais â Thomas John Roberts gyntaf ugain mlynedd union yn ôl a minnau yn fyfyrwr amrwdd, nerfus ar fy mhrawf yn Llanberis. Fo oedd gŵr y Tŷ Capel ac fe gafodd yr argraffiadau a adawyd arnaf y noson honno eu cadarnhau yn ystod yr ugain mlynedd a ddilynodd. Gŵr hynaws ydoedd, hael ei groeso, sylweddol ei gwmniaeth a llawen ei gyfeillgarwch. Dyna, rwy'n siŵr, dystiolaeth pob pregethwr a letyai gydag ef a'i deulu yn Llanberis ac yn y Nant. Gofalai am yr adeiladau, a mantais i'r eglwysi oedd ei fod mor fedrus â'i ddwylo.

Roedd yn ddyn amryddawn iawn. Bu'n flaenor cydwybodol hawdd cydweithio ag ef; yn athro Ysgol Sul tan gamp, gan y darllenai yn eang a pharatoi'n ofalus ar gyfer y dosbarth; yn arweinydd ymroddedig y gân yn ei eglwys ac mewn cymanfa byddai'n hyfforddi'r gynulleidfa yn y tonau newydd cyn yr oedfa; ac yr oedd

hefyd yn un o weithwyr ffyddlon Cyfarfod y Plant.

Carodd 'y pethe' a charodd 'ein cenedl ni' trwy ei weithgarwch eglwysig a'i ddiddordeb yn y gymdeithas leol – bu'n casglu newyddion ei fro i Eco'r Wyddfa am flynyddoedd. Y fo a wnaeth Bronygraig yn ddiddos i ni fel teulu, a gwelsom bryd hynny mai crefftwr oedd. Roedd graen a gofal y crefftwr i'w weld ymhob peth yr ymgymerau ag ef. Dyn llawn ydoedd.

Os oedd yn ŵr llawn ac yn ŵr llawen, eto yr oedd yn ŵr dwys iawn pan ddeuai cymylau duon i fritho'r ffurfafen fel y daw i ran y rhelyw ohonom yn ein tro. Fe erys y cof amdano ymhlith y rhai a'i adnabu, ac yn arbennig ymhlith ei blant, ei wyrion a'i wyresau a ddaeth â chymaint o lawenydd i'w fywyd, a chysur, yn arbennig yn ystod ei gystudd olaf.

Bydded i'r Duw a wasanaethodd ef mor ffyddlon fod yn Dduw i chwithau heddiw, ac i'r dyfodol. Diolch i Dduw amdano."

LLONGYFARCHIADAU i Helen Mai, Sharon a Iestyn o Ysgol Sul Rehoboth ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Byddant yn cael eu gwobrwyo yn y Cyfarfod Misol ym mis Mai.

CYMANFA – Bydd Cymanfa'r Dosbarth yn cael ei chynnal yn Rehoboth y Sul cynta o Fai eleni am y tro cynta erioed. Edrychwn ymlaen i weld llond y Capel o gantorion. Bydd te wedi ei baratoi yn y Festri.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlir â Mr Robert Franz Thomas, mab y diweddar Mr a Mrs Elfed Thomas, 9 Glanrafon yn y profedigaeth lem o golli ei briod wedi cystudd byr, yn ddim ond 36 oed.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Melfyn Pritchard Llys Awel a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli Tad a Thaid annwyl.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR CANGEN CYLCH CAERNARFON CWRS UNDYDD

'CYNEFIN, CREADURIAID A GEIRIAU'

Ym Mhlas Tan-y-Bwlch, Maentwrog
Ddydd Sadwrn, Mai 19, 1984

Rhaglen:

10.30 a.m. Coffi a Bisgedi
11.00 a.m. Darlith, **Natur yn y Dyffryn**, Mr E.V. Breeze Jones
12.30 p.m. Cinio
1.30 p.m. Taith fer yng nghwmni Mr E.V. Breeze Jones
3.00 p.m. Darlith, **Creadur a Lle**, Dr Gwyn Thomas
4.15 p.m. Te a Bisgedi
Tâl am y Cwrs: £6.00 (yn cynnwys bwyd)

BYDDAF YN DOD I'R CWRS UNDYDD YM MHLAS TAN-Y-BWLCH, MAENTWROG AR FAI 19

ENW

CYFEIRIAD

AMGAEAF YN DÂL AM Y CWRS (sieciau yn daladwy i C.A. y G.)

Dychweler y rhan hon i Mr Ifor Baines (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr), Hendy, Ffordd Haearn Bach, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: 881 328 (erbyn MAI 7fed fan bellaf)

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU 1984
LLANBEDR PONT STEFFAN A'R FRO**

Y SMOTYN DU

Beth yw dynes ond ei gair ynte? Addewais y mis diwethaf y buaswn yn rhoi ychwaneg o hanes y paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro, fel y cefais yr hanes o enau'r Trefnydd ffyddlon Mr J. Idris Evans. Chwi cofiwch i mi ddweud fy mod wedi mynd yr holl ffordd i Swyddfa'r Eisteddfod yn y dref, 'Llambled' (Lampeter), fel y gelwir hi ar lafar a fy mod wedi cyrraedd yno chwarter wedi deg yn y bore ar yr wythfed o Fedi 1983. Y mae rhyw hen air yn dweud fel hyn 'Y ci a gerddo a gaiff', a'r 'Aderyn sy'n hel ei fwyd yn y bore bach gaiff y wledd'.

Yn fyr, fel hyn y mae'r hanes am y Smotyn Du.

Rhoddwyd yr enw Smotyn Da ar yr ardal yng ngodre'r Fro - sef y darn gwlad rhwng Felin-fach a Llandysul lle mae'r Undodwyr yn y mwyafrif. Llysenw yw 'Y Smotyn Du' a roed ar yr ardal mewn Sasiwn Fethodistaidd, ac aethant mor bell ag awgrymu y dylid anfon cenhaden yno. Yr wyf am chwila i gael mwy o hanes 'Y Smotyn Du'.

Y Coleg

Addewais hefyd roi hanes sefydlu'r Coleg, Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

Fel y soniais o'r blaen dyma goleg hynaf Cymru ac o bosib dyma'r harddaf ohonynt i gyd o ran adeiladau.

Ym 1803 penodwyd Thomas Burgess, Sais o swydd Hampshire, yn Esgob Tŷ-ddewi. Aeth ati ar unwaith i wella cyflwr addysg yn yr esgobaeth. Cododd ysgolion yng Nghaerfyrddin, Ystrad Meurig, Aberhonddu a Llanbed i baratoi myfyrwyr ar gyfer yr offeiriadaeth. Dechreuwyd hefyd ar waith sefydlu'r Coleg. Agorwyd Cronfa a chyfrannodd yr Esgob ddegfed ran o'i incwm ei hun iddi'n flynyddol - a disgwyl i'w offeiriadaid ddilyn ei esiampl! Erbyn 1820 roedd y Gronfa wedi cyrraedd £11,000, ac ar ddydd Gŵyl Ddewi 1827 agorwyd y drysau i'r myfyrwyr

cyntaf. Coleg Dewi Sant yw'r hynaf nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yng Nghymru a Lloegr ar ôl Rhydychen a Chaergrawnt - ac ar batrwm eu hadeiladau hwy y cynlluniwyd adeiladau Llambled. Daeth y Coleg yn rhan o Brifysgol Cymru yn 1971. Mae'r Coleg yn ei gyfyngu ei hun i'r celfyddydau, ac ar hyn o bryd mae 700 o fyfyrwyr yno.

Cystadlaethau Newydd

Tybed faint o bobl barchus fydd yn cystadlu yn adran adrodd ar y gystadleuaeth 'Dweud Celwydd Golau'?

Yn yr adran gerdd, y mae cystadleuaeth i rai dros 60 oed. Bu'r gystadleuaeth hon yn boblogaidd iawn mewn amryw o eisteddfodau ar hyd a lled y wlad, ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chynnal yn y Genedlaethol.

Yn yr adran gelf a chreffft ceir cystadleuaeth Cartŵn. Efallai ein bod ni'r Cymry yn dueddol o gymryd pethau ormod o ddifri, felly dyma gyfle i rywun wneud tipyn bach o sbort am ein pennau. Heb os, fe geir sbort! Mae'n debyg y daw'r gystadleuaeth yma mor boblogaidd â'r Englyn digri ac y cynhelir hi bob blwyddyn. Rhaid cael hwyl bach diniwed a chwbl chwaethus yn fy marn i.

Nod y Gronfa Leol oedd cyrraedd £80,000. Faint fydd yn y gronfa erbyn Awst 4ydd tybed? Mawr obeithiwn y bydd llwyddiant yn dilyn eu hymdrechion. Fy nheimplad i ydyw y bydd Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro yn un arbennig o ran safon ddiwylliannol, a thrueni fyddai iddi beidio â bod yn llwyddiant mawr yn ariannol hefyd.

Glywsoch chi'r englyn gwych a wnaeth J.H. Griffiths, Goginan i'r Eisteddfod? Dyma fo:

Hoenus yw 'rôl hanes hir, -

yn ei llys

Cân a llen a noddur;
Yno hed yr awen wir
A'r heniaith a feithrinir.

Hwyl a Heddi'r Eisteddfod Fawr yn Llambled 1984 yw ein dymuniad diffuant.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod mis Ebrill cafwyd darlith ddiddorol iawn a sleidiau gan Mr John Williams, o'i ymweliad â Tasmania.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston, ac fe'i enillwyd gan Mair Williams. Darparwyd y te gan Carol Houston a Val Davies.

Mae'r aelodau yn brysyr ymarfer dawnio gwerin ar gyfer cyfarfod yn Llanfairfechan ac hefyd ar gyfer Sioe Llanelwedd yn yr haf.

CLWB MAMAU: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgol fach trefnwyd noson hwyllog gan Jackie Jones a Helen Roberts ar thema'r gêm deledu 'Bull's Eye'. Enillwyd yr ornest gan Moira Ellis a Rhian Jones.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Mair Williams a Pat Jones a fu'n lwcus. Pat Jones hefyd a wnaeth y te gyda Carol Houston.

CLWB PEDWARUGAIN: Enillwyr mis Mawrth: 2: 1. Dwynwen Owen, 2. Jenny Williams, 3. Ifanwy Jones. 9: 1. Pat Mowll, 2. Ann Jones, 3. Betty Owen (Tros yr Afon), 16: 1. Helen

Jones, 2. Ken Mowll, 3. Gary Jones, 23: 1. Glyn Owen, 2. Eirlys Williams, 3. Liz Thomas. 30: 1. Jill Siop Ganol, 2. Bertie Roberts, 3. H.J. Jones.

DIOLCH: Dymuna Wil a Jennie Hughes, Bryn Garth ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Rhuddem.

DRAENOG



A wnaiff y sawl a gafodd y fraint o gyd-gysgu â thad y briodferch yrru ei henw i'r Eco (PO Bocs C.G.)

(Gwobr Hanner awr yn lle 10 munud).

AR WERTH

Chwaraewr casetiau stereo (personol) Philips K7. Pedwar mis oed, cyflwr ardderchog. £18. Ffôn: Caernarfon 4051.

CEUNANT

GENI: Llongyfarchiadau i Glyn a Sandra Jones, Penhafodlas ar enedigaeth eu mab Paul Glyn ar Fawrth 26, brawd bach i Karen Ann.

PRIODAS: Yng nghapel Glanrhyd, Llanwnda ddydd Sadwrn, Ebrill 21, priodwyd Carys Mai Jones, merch Mr a Mrs Jones, Gwelfor, Ceunant ag Arwel Glyn Griffith, y Bontnewydd.

Gweinyddwyd gan y Parch Huw Gwynfa Roberts. Y morynion oedd Dawn Lloyd, Bethan Griffith ac Eryl Roberts. Melfyn Griffith, brawd Arwel oedd y gwas. Cafwyd y wledd briodas yn y Dingles, Dinas Dinlle.

Mae'r pâr ifanc yn treulio eu mis mēl yn Ne Ffrainc. Byddant yn ymgartrefu yn y Bontnewydd. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt.

BETWS GARMON

PRIODAS: Llongyfarchiadau i Delyth a Michael Wyn Jones o'r Waunfawr ar eu priodas ddydd Sadwrn y Pasg a chroeso iddynt i Bryn Tegid. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

LLONGYFARCHIADAU: i Meirion Williams, Y Llythyrdy ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar Ebrill 8.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**Mae
G.
JORDAN
CEFN ELAN
LLANRUG**

wedi prynu
busnes

**ERIC GOVER
LLANBERIS**

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
**CAERNARFON
3581**

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr **CALOR GAS**

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

Y GANOLFAN – Dyma restr enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth – 1. £40 G. Dinwoody, Glyn Garth; 2. £25 Tegid Hughes, Llys Meredydd; 3. £10 Mrs Emsul Jones, 13 Bro Waun.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Parry, Rhes Eilian, ar golli ei brawd ym Mhenygroes, ac â Mrs Laura Williams, Tros y Gors, ar golli ei thad ym Mhorthmadog.

LLONGYFARCHIADAU i Glenda Jones, Lynfod, ar ei phriodas â Mr Eryl Davies, Rhyl;

I Michael Jones, Benallt, a Delyth Williams, Coed Gwydryn, ar eu priodas yng Nghapel Croesywaun, ddydd Sadwrn y Pasg;

I Rhodri a Sylfia Prys Jones, 15 Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth mab bychan, Ifan Morgan, brawd i Aled Rhys.

YSBYTY – Mae Mrs Huw Parry, Bro Waun, Dafydd Pritchard, Rhes Eilian, Richard Rowlands, Bryn Golau a Miss Mary Pierce, Tref Eilian yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddynt.

ADREF – Mae Mrs Greta Hughes, Tref Eilian, Mr David Jones, Lynfod, a Mrs Llywela Davies, Tref Eilian, gobeithio eu bod yn gwella.

LLONGYFARCHIADAU i'r rhai canlynol ar lwyddo yn eu harholiadau cerddorol yn ddiweddar:

Theori Gradd 1, Euros Wyn, Y Frenni. Piano Gradd 1, Bethan Wyn, Y Frenni; Rhys Sion, Pant Teg.

Piano Gradd 2, Ioan Gwyn Thomas, Treforfan (gyda theilyngdod); Gwennan Jones, Glyn Ceris (gyda theilyngdod); Telor Iwan, Penberth (gydag Anrhydedd); Osian Gwynedd, Nant; Wayne Owen, 4 Dol Erddi.

Piano Gradd 3, Sian Llwyd, Dôl y Coed; Helen Hughes, Tref Eilian. Piano Gradd 4, Huw Ynyr, Tan y Fron.

GRŴP 100 PLAID CYMRU – Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Mawrth – 1. Mrs Jones Evans, Pennant; 2. Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn; 3. Dic Jones, Llwyn Onn.

DR BARNADO – Casglwyd £34.18 yn y Waunfawr, a £5.51 ym Metws Garmon tuag at yr uchod. Dymuna'r trefnwyr deiolch i bawb am eu cyfraniad.

DIOLCH – Dymuna Tom a Iona Williams, Coed Gwydryn, ddiolch i bawb, yn enwedig eu cymdogion, am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar achlysur priodas eu merch Delyth.

CANOLFAN WAUNFAWR – Enillwyd raffl Bryneirian gan y canlynol: 1. Delyth Williams, Coedgwydryn, potel o whisgi; 2. Mrs Mowles, Cilfechyd, potel o rym; 3 a 4. Mrs Parry, Bro Waun. Diolchir i bawb fu mor garedig â chyflwyno gwobrau.

Enillwyd raffl y Grand National gan y canlynol: 1. Robert ap Wyn, Ysgol Syr Huw, HALLO DANDY; 2. Aled Griffith, 6 Tŷ GREASEPAINT; 3. Marion Iwan, Penberth, CORBIERE. Y ceffyl diwethaf! Mrs K. Tame, 1 Bryn Afon, CANFORD GINGER.

Hae'r pwyllgor yn dymuno diolch yn fawr i bobl ieuanc y pentref am eu rhodd o £200, sef elw noson arbennig a gynhaliwyd ganddynt yn ddiweddar yn Llanberis.

Diolchir i Ferched y Wawr hefyd am eu rhodd hael o £30.

Unrhyw un sydd am helpu gyda'r gwaith peintio ac adeiladu sydd ar ôl yn y Ganolfan o hyn tan ddechrau'r Gaef mae croeso cynnes iddynt droi i fewn i'r Ganolfan ar unrhyw adeg a gofyn i Gwilym am waith.

Diolchir i bawb sy wedi bod mor brysur yn helpu gyda'r gwaith

adeiladu a chodi arian dros y misoedd diwetha.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu. Estynnwyd cydymdeimlad yr aelodau â Mrs Katie Wynn Jones ar ei phrofedigaeth. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf a'u trafod. Mrs Katie Wynn Jones fydd y cynrychiolydd i fynd i'r Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir yn Llundain. Mae trip yn cael ei drefnu i fynd i'r Ganolfan Grefftau, Rhuthun ac wedyn ymlaen i Wrecsam. Enwau rhai sydd â diddordeb mewn mynd, i Mrs Katie Wynn Jones.

Iynhelir gwersi brodwaith yn Festri Croesywaun, bob nos Fawrth. Bydd croeso i unrhyw un a fuasai yn hoffi ymuno â'r aelodau.

Cafwyd arddangosfa o wahanol fwydlysiau gan Miss Ellen Hughes, y wraig wadd. Athrawes Economeg y cartref yw hi, yn Ysgol Isaf Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Diolchwyd iddi gan Mrs Morfa Evans. Enillodd Mrs Southworth y raffl a roddwyd gan Mrs Buddug Rowlands. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau Mai 3, pan fydd trefnydd gwirfoddol y sir yn trafod penderfyniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynnyddol.

CARNIFAL YR YSGOL FEITHRIN – Ebrill 6 mewn noson goffi gan yr eisteddfod fe ddewiswyd Brenhines y Carnifal a'i gosgordd. Fe ddewiswyd yr enwau gan y Frenhines Felicity. Brenhines 1984 yw Heidi Hayes, merch Mr a Mrs Hayes, Tref Eilian. Ei morwyn yw Gwennan Jones, y Flodeuferch yw Rhian Griffiths, a gwas y llys yw Gareth Cadwalader. Fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr i Bwyllgor yr Eisteddfod ac i bawb am eu cefnogaeth.

CLWB GWYRFAI – Mawrth 29 treuliodd yr aelodau bnawn difyr iawn yng nghwmni Mrs Skidmore, Rhosgadfan. Teimlai'n ddiolchgar am gael bod yn dysgu Cymraeg yn Nantgwrtheyrn, a chael bendith ysbrydol yng nghwmni ei chyd-ddisgyblion. Dyma'r tro cyntaf iddi annerch yn gyhoeddus mewn Cymraeg, glân a graenus. Diolchwyd iddi gan y llywydd, y Parch Trefor Jones, a chafwyd sgwrsio brwd gan amryw o'r aelodau. Enillwyd y raffl gan Mrs Griffith, Bronallt, rhodd Mrs Overy. Yn gyfrifol am y te roedd Mrs Lewis, Mrs Roberts, Bod Idris a Miss Roberts, Glan Aber.

'Hawl i Holi' oedd testun cyfarfod y Clwb ar Ebrill 12, o dan lywyddiaeth y Parchedig Trefor Jones. Ef hefyd gyflwynodd y panel o dri – sef y Parch Elwyn Edwards, Caernarfon; Mr Glyn Thomas, gweithiwr cymdeithasol a hefyd golygydd y cylchgrawn pop 'Sgrech', a Dr Miles, Waunfawr. Cafwyd trafodaeth fywiog i atebion y panel ar gwestiynau a anfonwyd i mewn. Roedd te arbennig wedi ei baratoi gan bwyllgor y Clwb a diolchwyd i bawb gymerodd ran gan Miss Owilda Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Roberts, 'Rardd Isa.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd o dan lywyddiaeth Mrs Gweneirys Jones, nos lau, Mawrth 22. Y wraig wadd oedd Mrs Catherine Jones, Prif Athrawes Ysgol Pendalar, a ddangosodd ffilm fideo o'r plant hynaf yn yr ysgol yn dysgu coginio, glanhau a chwarae gemau. Diolchwyd iddi gan Mrs J. Awstin Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs K.W. Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr Wyn Jones, a hefyd â theulu y ddiweddar Mrs Siân Brymer Thomas, Llanberis. Bu Mrs Thomas

yn aelod o'r gangen ar un adeg.

Llongyfarchwyd Mr a Mrs Edgar Owen ar enedigaeth mab bychan, Dewi Wyn, a hefyd Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun ar fod yn nain unwaith eto. Gwesteion y te oedd Mrs Glenys Jones, Mrs Beryl Jones a Mrs Gillian Miles. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Olwen Williams, gan y llywydd.

YR URDD – Eleni eto, mae plant Waunfawr wedi llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr Eisteddfodau Sir, llwyddodd y partion unsain dan 12 oed a than 15 oed, Grŵp Offerynwyr dan 15 oed, ac Iwan Ellis ar yr unawd i fflwt dan 15

oed i gyrraedd yr Wyddgrug.

Bydd y tri pharti yn cystadlu ddydd Mercher, Mai 30, Iwan ar y dydd lau. Trefnir bws i fynd â nhw i'r Wyddgrug, a fydd yn cychwyn yn brydlon am 6.00 am. Bydd tua 20 o seddau ar gael i unrhyw un a hoffai ddod gyda ni, os rhowch eich henwau i Beryl Jones, Dôl y Coed.

Nos Wener, Mai 11eg, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30, cewch gyfle i glywed plant yr Urdd, yn perfformio'r holl eitemau oedd gennym pan gynhelir noson 'Paned a Chân'. Byddem yn ddiolchgar am gyfraniad gan y rhieni tuag at stondin gacennau.



Michael a Delyth a briodwyd Sadwrn y Pasg.

OFFER NEWYDD I'R MEDDYGON



Dyma ddarlun o'r ddau offer newydd i feddygon Waunfawr a ddaeth o Gronfa'r Feddygfa a gyfranwyd gan gyfeillion er cof am eu hanwyliaid. Mae'r 'defibrillator' yn rhoi sioc i

ailddechrau'r galon ac mae'r 'monitor' yn dangos ar deledu bychan batrwm o'r curiad mewn eiliadau.

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Creffftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO 1984

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yr Eco nos Iau Ebrill 5 yn ysgoldy Capel Brynrefail. Dafydd Ellis, gohebydd pentref Brynrefail oedd y cadeirydd. Roedd saith arall yn bresennol.

Materion yn deillio o gofnodion y cyfarfod llynedd:

Ynglŷn â'r methiant i gynnal Gŵyl Ddrama yn hydref 1983; pasiwyd fod cais yn cael ei wneud o'r cyfarfod i bentrefi penodol sy'n barod wedi mynegi awydd i berfformio drama i fod yn rhan o noson o ddramâu byrion i'w chynnal yn yr hydref 1984. (Dyddiad i'w benderfynu ar ôl ymgynghori rhwng y cwmnïau.)

Pasiwyd hefyd fod cais yn cael ei wneud o'r cyfarfod i nifer o unigolion ledled y fro i fod yn aelodau o bwyllgor adloniant-chymdeithasol a fyddai'n gyfrifol am weithgareddau fel y ffug-eisteddfod, noson ddrama codi arian ac yn y blaen.

Adroddiadau:

Diolchodd y tri golygydd yn eu tro i'r tîm mawr o bobl sy'n helpu i gyflawni eu gwaith bob mis. Croesawyd aelodau newydd - gohebwyd pentrefi a dosbarthwyr a mynegwyd y tristwch o golli gweithwyr ffyddlon a diflino fel Perisfab a Siân Thomas.

Gwnaethpwyd cri am ragor o gyfranwyr ac am erthyglau a rhagor o flas "modern" arnynt ac hefyd am luniau cyfoes o bob math.

Awgrymodd John Roberts, y Trefnydd Hysbysebion y gallasai'r Eco gyflogi person i ymgymryd â nifer o agweddau o'r gwaith o gynhyrchu'r papur o dan Gynlluniau Creu Gwaith y llywodraeth. Yn dilyn trafod manwl ar y pwnc addawodd John y byddai'n ymchwilio i'r mater.

Awgrymwyd hefyd y byddai o les cyffredinol i chwynnyn barn a beirniadaeth pobl y fro am yr Eco. Penderfynwyd i drefnu cyfarfod cyhoeddus i'r pwrpas yng nghwmni panel o newyddiadurwyr proffesiynol o'r ardal.

Ysgolion:

Barn y bobl hynny sydd wedi

cydweithio ar dudalen yr ysgolion yw fod y profiad o roi'r cyfrifoldeb ar y plant wedi bod yn hynod werthfawr iddynt. Oherwydd amgylchiadau arbennig nid yw bob ysgol yn y cylch wedi cael y profiad eto. Awgrymwyd fod angen rhywbeth cyffelyb ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, ac i'r pwrpas hwn yr etholwyd Edward Elias yn Gysylltydd yr Ieuan.

Dyddiadur:

Gwnaed apêl o'r cyfarfod i bobl i roddi gwybod i Jane Morris mewn da bryd yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd - yn enwedig y gweithgareddau hynny y disgwylir i'r fro gyfan eu cefnogi.

Hysbysebion:

Diolchodd y Trefnydd i'r holl hysbysebwyd am gefnogi'r Eco. Dywedodd fod tystiolaeth gref fod pobl yn ymateb i'r hysbysebion.

Gwerthiant:

Diolchodd y Trefnydd i'r holl ddosbarthwyr. Tua 2,300 yw'r cylchrediad ar hyn o bryd. Achos pryder yw'r ffaith nad yw rhai strydoedd ac ardaloedd yn rhai o'r pentrefi yn derbyn yr Eco bellach. Penderfynwyd gwneud arolwg o'r sefyllfa ac yna weithredu ar y canlyniadau.

Gwerthiant Post:

Rhywbryd yn y dyfodol agos mae Mrs Margaret Evans, Lloc, Llanrug yn dymuno rhoi'r gorau i drefnu'r adran bwysig hon o ddosbarthu'r Eco. Hi fu'n gyfrifol am hyn o ddechreuad y papur. Gwerthir tua 70 rhifyn drwy'r post yn fisol.

Cyllid:

(gweler mantolen a baratowyd gan y Trefnydd Ariannol)

Ethol Swyddogion:

Ailetholwyd yr holl swyddogion. Penderfynwyd cysylltu â pherson ynglŷn â Swydd Golygydd Chwaraeon.

Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 1984

Mewn llaw Ebrill 1, 1983	1341.05
Incwm	
Gwerthiant	4436.01
Hysbysebion	2582.20
Rhoddion	251.20
Grantiau	910.00
Elw'r Eisteddfod	127.56
Clwb y Cefnogwyr	100.00
Rhedeg nodedig	20.00
Llog	51.89
	8478.86
	9819.91

Gwariant	
Argraffu	6535.70
Ffotograffiaeth	183.83
Biliau, amlenni etc	19.61
Stampiau	172.83
Gwobrau	18.00
Amrywiol	15.00
Cystadleuaeth	
pêl-droed	4.54
	6949.51
Mewn llaw Mawrth 31, 1984	2870.40

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

SIÂN

TEYRNGED GAN FFRIND

Rhyw dair blynedd ar ddeg yn ôl y daeth Siân i gydweithio â mi yn yr ysgol, ac yn ystod y blyneddau dilynol daethom yn ffrindiau clos. Canfyddais ei bod yn amryddawn iawn ac yn berson llawen, a mawr oedd fy mwynhad yn ei chwmni.

Nid oedd Siân yn hoffi ffws o gwbl, un o'r rhai oedd yn hoffi gwneud yn ddistaw yn hytrach na chael ei gweld oedd hi. Tebyg oedd gyda'i hafiechyd, doedd arni ddim eisiau ffws o gwbl, doedd hi ddim yn berson hunanol. I'r gwrthwyneb, roedd yn meddwl am eraill bob tro. Brwydrodd yn ddistaw, mor ddistaw roedd yn anodd cofio ar brydiau mai bregus oedd ei hiechyd.

Un o enethod y pentref oedd Siân a chredai'n gydwybodol y dylai pawb roi o'u gorau i'w cymdeithas. Fe wnaeth hi hyn mewn llawer agwedd o weithgarwch y pentref. Bu'n aelod bywiog o'r Cwmni Drama tan y bu rhaid rhoi'r gorau am na allai bellach ddod i'r ymarferiadau. Roedd yn weithgar iawn gyda'r Carnifal, nid yn unig mewn pwyllgorau, ond gyda'r plant ac roedd wrthi'n ddygn yn paratoi fisoedd cyn y diwrnod ei hun. Rhoddodd wasanaeth teilwng i'w chapel yn helpu ar gyfer yr Eisteddfod. Mawr oedd ei mwynhad o gael mynd â phlant yr Urdd i dreulio penwythnosau yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn. Pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon roedd yn aelod gweithgar o'r Pwyllgor Lleol a gwerthfawr iawn oedd ei chyfraniad pan oedd plant

yr ysgol yn cymryd rhan ym Mhasiant y Plant. Rhoddodd o'i gorau yn ei gwaith yn yr ysgol hefyd ac roedd yn uchel ei pharch gan y plant a'r athrawon. Roedd wrthi'n ymddiddori â'r Eco ac yn un o'r criw oedd yn cynrychioli'r pentref yn Eisteddfod yr Eco, ond eleni ni allai fod gyda ni am ei bod yn cael archwiliad corfforol yn Ysbyty Glan Clwyd. Er hynny, roedd yn mwynhau ein hanesion ac yn cyd-chwerthin â ni. Roedd yn barod ei chymwynas â phawb bob amser.

Fe brofodd Siân lawer siom yn ystod ei hafiechyd. Cafodd driniaeth lawfeddygol i drawsblannu aren, ond wedi'r dyheu mawr a'r driniaeth ofalus, methiant fu. Wedi ychydig ddyddiau roedd yn ôl yn dyheu unwaith eto am aren newydd. Cafodd sawl cnoc, ond ni roddodd ei ffydd o'r neilltu. Roedd yn parhau i gredu bod gwellhad i ddod. Fe sefydlodd Bwyllgor Cronfa'r Arennau Llanberis a'r Cylch a hi oedd y Cadeirydd. Mor falch oedd Siân pan drosglwyddodd y siec gyntaf yn Ysbyty Lerpwl. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf casglwyd oddeutu £4,000 tuag at Gronfa'r Arennau. Roedd mor ddiolchgar o bob cymorth a dderbyniodd i brynu offer a pheiriannau'r arenau i eraill oedd yn dioddef fel hi ei hun. Penderfynodd fyw ei bywyd hyd yr eithaf a chymryd pob diwrnod yn ei dro.

Fe erys y cof am Siân ymhlith y rhai â'i hadwaenai, yn arbennig ymhlith ei theulu bach, Alwyn, Trystan ac Euron, ei mam, Mrs Meira Bryn Hughes, ei pherthnasau a'i ffrindiau. Bu'n ffrind ffyddlon, gonest a charedig. Diolch am gael ei hadnabod.

JANE MORRIS

Y Canfed Rhifyn:

Daw'r canfed rhifyn allan o'r wasg ddechrau 1985. Gwnaed apêl o'r cyfarfod am awgrymiadau gan y darllenwyr ar gyfer yr achlysur.

CYMORTH ARIANNOL I'W GAEL

A wyddoch chi fod modd derbyn help at gostau gwresogi'r tŷ, bwydydd arbennig, costau golchi ac hyd yn oed arian i brynu dillad gwlâu? Dyma ond ychydig enghreifftiau o'r cymorth sydd ar gael gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol.

Mae ymgyrch ar dro gan yr adran i dynnu sylw'r cyhoedd at y gwahanol gymorth ariannol sydd ar gael. Mae cryn bryder a gofid am y nifer sydd yn deilwng o gymorth ond heb wneud unrhyw gais i'r swyddfa, ac mae


lle i greu fod nifer helaeth o'r henoed yn gwrthod gwneud cais oherwydd balchder neu ddiffyg dealltwriaeth.

Prif fwriad yr ymgyrch yw annog cymdogion, ffrindiau a theulu i hysbysu'r henoed o'u hawliau, ac erfyn arnynt i anfon am gymorth. Gallwn sicrhau y bydd pob cais yn derbyn sylw manwl ac yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Felly erfyniwn ar y darllenwr i fod yn wyliadwus o'r henoed a'u hannog i anfon i'r cyfeiriad isod cyn gynted â phosib. Gall y rhai sy'n derbyn lwfans atodol yn barod anfon yn yr un modd os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt. Hefyd mae modd i rai sydd ddim yn derbyn lwfans atodol wneud cais am help at gostau triniaeth dannedd, costau spectol a ffisg.

Disgwylir i bersonau di-waith wneud cais trwy'r Adran Gyflogi. Adran Nawdd Cymdeithasol, Penrallt, Caernarfon. LL55 2HN

"AMLINELL LOM Y MO



Diolch i Mr T.A. Davies, Llanrug am y llun hwn o fynyddoedd Eryri. Os pery'r tywydd clir gellwch ddefnyddio'r llun i ddarganfod enwau'r holl fynyddoedd.

YSGOL WAUNFAWR



Llun o Ysgol Waunfawr tua 1934. Anfonwyd y llun gan Mrs K.M. Jones, Gorwel, Waunfawr. Pwy yw'r athrawes? Ble mae'r plant erbyn heddiw?

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CWMNI YSWIRIANT
Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES
Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,
Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES
Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŷN Â'CH
HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

YSGOL BRYN


Lluniau mewn atodlen arbennig o'r 'Cymro', Mehefin 3ydd, 1939. Anfonwyd i'r 'Eco' gan Mrs R. Jones, Bronallt, Llanrug.



Y STAFF: Yn eistedd o'r chwith i'r dde: Miss G. Barrett, Miss C. Evans, Miss P. Hughes, Mr Emrys Thomas, Miss Gwyneth Evans a Miss O. Lewis. Yn sefyll: Mr R. Morris, Mr David Jones, Mr Glyn Jones, Mr I.L. James, Mr G.P. Jones a Mr E.L. Jones.



ELNI MAITH"



REFAIL – 1939



Y TÎM HOCI: Y rhes ôl, o'r chwith i'r dde: G. Marian Thomas, Enid R. Edwards, Miss Barrett, Irene Price, Iris Roberts ac Annie M. Griffith. Y rhes flaen, o'r chwith i'r dde: Mena Jones, Peggy Land, Buddyg Jones, Nellie Wyn Jones ac Eileen Hughes.

Isod: Adran y Genethod ac Adran y Bechgyn.



Tîm Mabolgampau'r Ysgol — dim enwau.



Tîm Pêl-droed yr Ysgol — dim enwau.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

ATGOFION AM GLWT-Y-BONT (YR AIL RAN)

(Rhyfel Byd Cyntaf hyd y tri-degau)
gan Mrs Buddug Griffith, Llanfaircaereinion

Y capeli a rannai'r boblogaeth ar y Sul. Ar ambell un o gyfeiriad y Ciali at y Methodistiaid i'r Ysgoldy, capel cyntaf yr ardal. Yr Annibynwyr selog a fynychant Faes y Dref ar ben Gallt Sam. Safai Libanus, capel y Bedyddwyr yng nghanol y pentref, a dyna Disgwyfla urddasol wedyn. Nid rhyfedd i Syr O.M. Edwards ddweud am yr ardal "Ei thai bychain, a'i chapeli mawr."

Fodd bynnag cefnogid yr holl enwadau yn ariannol a chyda phresenoldeb rheolaidd a balchder. Diwrnod i'w fwynhau oedd dydd Sul. Credaf fod pawb yn cael dedwyddwch wrth fynychu'r oedfaon, dair gwaith y Sul gan fynychaf. Pawb yn ei ddillad gorau yn teimlo'n fwy pwysig na'r dyddiau eraill. Roedd cinio a the dydd Sul yn ddiahebol. Deuai rhywun i de gyda chi, neu eich gofyn gyda hwynt, ac yn yr haf, cael swper reit handi i fynd am dro, a byddai "Lôn Top" bron fel glan y môr.

Ceisai yn awr gofio'r siopau i gyd. Roedd siop fach yng ngwaelod Allt Sam, yn gwerthu tipyn o bopeth, yr un fath â siop mam Alun yn y Ciali. Wrth ddod o'r Cwrdd Diolchgarwch o Faes y Dref, galw yn siop mam Jini Glynafon i brynu c'negwarth o farblis. Tymor chwarae marblis yn cychwyn. Gwerthai dda-da a burum ac ychydig nwyddau arferol. Bu Jackie yn cadw siop am beth amser yn uwch i fyny Teras. Cyrraedd siop Lora Pritchard, siop dipyn mwy gyda'r nwyddau arferol heblaw hosanau, llastic pinnau etc. Fe dorrai hi lwmp o dda-da yn ei hanner rhag rhoi gormod i neb. Mwy o hwyl fyddai prynu 'Lucky packet' ganddi, neu hosan dda-da tua'r Nadolig, er nad oedd fawr o ddim ynddynt ond rhyw bum lwmp o dda-da bach, puzzle a llun rhywbeth, a jôc. Dim yn ddrwg am ddimai! Rwy'n lled gofio fod gan John ei mab, geffyl a cherbyd i gario pethau o'r station. Siop bwysicaf Clwt-bont oedd siop William Jones, yn fy nghof i Mr Tom Jones (Tom Shop) a'i cadwai gyda'i ddwy chwaer, Miss Mary a Miss Maggie a Hywel, perthynas iddynt, a chadwant brentis. Gwerthent bob un dim yn y siop.

Wrth agor y drws gwelech roliau o oilcloth a matiau llawr yn sefyll ar eu colyn ar ganol y siop. Ar gyfer y drws yr oedd cownter y nwyddau (groceries and provisions) gyda chlorian fawr loyw ar y cowntar. Ar y cowntar chwith gwerthid

defnyddiau o bob lliw a llun a dillad gwely, heblaw dillad dynion.

Cownter y merched oedd ar y dde. Ffrociau, bratia, blowsus, peisiau a dillad isaf a dillad babanod. Yma hefyd y caech dâp a les a lastic a ruban gwallt a phinnau het. Yr ochr yma yr oedd yr hetiau hefyd. Os byddai mam eisau het newydd, gyrrai hi fi heibio'r siop a chawn hanner dwsin mewn bag papur i fynd adref iddi ddewis yr un a weddai iddi.

Yn y gongl ger y ffenestr, eisteddai Nell yn gwneud hetiau, trwy orchuddio "siâp" gyda defnydd, a'i drimio yn ddigon o ryfeddod. Gallech brynu 'mourning' yma hefyd a byddai galw am y dillad du mor aml.

Talai'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid eu biliau bob wythnos neu bob mis. Cyn y Nadolig cawsai pawb ei "Christmas Box" - cyrants a resins a chandi pil a theisen Dolig wedi ei haddurno'n brydferth. Heblaw'r pethau hyn i gyd gwerthent flawd a phorthiant anifeiliaid a glo, ac yn yr haf gribiniau, a phicffyrch a brwshus. Roedd ganddynt drol a cheffyl a Dic Dafis i fynd â llwythi o gampas yr ardal. Deuai i Fryn-du yn rheolaidd gyda glo ac India corn a brân, a chariai'r cyfan i'r cwt am chwech cheiniog gan mam. Deuai i fyny lôn Garnedd a Gallt y Foel, ac ar hyd lôn top at y tŷ. Ar ôl i Dic druan ddiplannu cafwyd lorri fechan i wneud yr un gwaith.

Yr ochr arall i'r ffordd yr oedd Busnes John Harris 'Refail. Efo oedd yng ngofal yr Hers. Un wydr, a'r adnod "Yr Arglwydd yw fy Mugail" ar y ffenestri. Cadwai gerbyd pwrpasol ar gyfer y galarwyr hefyd, fel bod cynhebrwng yn amgylchiad urddasol iawn. "Comet" oedd enw un ceffyl, a'i "ddwy droed blaen yn wyn fel eira" fel yr arferem ganu. Roedd yno 'Frêc' hefyd, ac mae gennyf gof bach o fynd i'r Gymanfa i Gaernarfon ynddi. Ar gyfer ei adeiladau, yr oedd gan John Harris gae hefyd, lle porai dau neu dri o

geffylau. Sioe fawr oedd gweld ceffyl ifanc yn neidio a strancio wrth gael ei "dorri mewn".

Yn nes ymlaen deugn at siop J. Hughes. Yma eto dipyn o nwyddau a da-da, ac at ddiwedd yr wythnos tipyn o sgrams fel penidys, pwddin gwaed, brôn, a hadoc melyn.

Am ychydig amser cadwodd Mrs Hugh Jones siop grocer yn y King's Head, cyn i Mr Robert John Thomas agor siop gig yno. Fe fu Robert Lloyd Jones yn farbwyr yno am beth amser, ar ôl cael ei glwyfo yn y rhyfel.

Yn nes ymlaen dyna'r Post Office and General Stores. Yn ystod y rhyfel gallasech gwrdd â'r postman y tu allan i'r post. Cerddai ef o Gwm-y-glo a'i lythrau mewn cert fach a wthiai o'i flaen. Daeth newid dwylo i'r Post pan ddaeth Mr a Mrs Davies yno o Sir Benfro. Dilynwyd hwynt gan deulu Brython, a hyfryd gweld fod busnes yn dal yn llewyrchus o hyd.

Roedd siop wedyn yn 'Siop Gron' yn gwerthu dipyn o bopeth.

Ni wn pa flwyddyn y symudwyd siop W. Jones i Coed (neu Fron) Helen, ond heneiddiai'r perchnogion ac aeth y busnes yn llawer llai, a pheidio â bod fel y lleill i gyd ond 'Y Post'.

Wedyn yr adeiladwyd Pentre Helen ar y caeau a berthynai i'r

Bwthyn, eiddo Tom Siop. Roedd ganddo injian lladd gwair ac efo a roddai'r cychwyn ar y cynhaeaf fel arwydd i'r tyddynnod i gyd. Yna byddai prysurdeb mawr ym mhob man.

Un peth arall wyf yn gofio, sef treialon motor beics i fyny'r inclen, ond ni chyrhaeddodd neb y top.

Pwy all gofio Motor Proser yn cychwyn rhedeg i'r dref? a mynd i waelod Gallt Sam i'w gyfarfod? Ar ei ôl ef y daeth Jac Huws a'i charabang i Glwt-bont cyn i'r Crosville gymryd drosodd.

Nid yw'r pentref wedi newid fawr. Ychydig o'r tai lleiaf wedi chwalu. Y tyddynnod oddi amgylch sydd wedi diflannu, a thrwy hynny beth o'r gymdeithas glos gymdogol. Breuddwydiaf weithiau gerdded tryw'r lle ar noson o haf. Drws pawb yn agored. Ambell un yn mynd at y feis i nôl dŵr glân, ac yr oedd ambell i feis ar gael yn y pentref.

Gweld tŵr o ferched yn rhoi'r byd yn ei le, ond yn barod i gymwynas pe bai galw. Jên Bet yn ei lle arferol yn gweld pawb a phopeth. Ambell ddyn yn cael stelc a smôc ar ben drws. Pawb yn meindio'i fusnes ei hun, a pheth o fusnes pawb arall. Ni welais erioed gwffio a lardio, ac nid oedd tafarn yn y lle ers blynnyddoedd.

Wel, roedd hi'n braf erstalwm!

MODEL O FETHEL

Bythefnos yn heulwen Sbaen, ac ar draul rhywun arall, cael eich ffilmio (am y rhan gyntaf) yn arddangos dillad drudfawr enwau mawr y byd ffasiwn, yna wythnos o ymlacio, torheulo, discos, cymdeithasu ... Sut mae hyn'n swnio? Breuddwyd i'r rhelyw o ferched ifanc efallai - ond breuddwyd a ddaeth yn ffaith i Llinos Roberts, 18 oed o Fethel.

Fel canlyniad i ymateb ei thad, Raymond Roberts, 19 Eryri, Bethel i hysbyseb mewn papur dyddiol dewiswyd Llinos yn un o saith o ferched rhwng 17 a 23 oed oedd eu hangen gan gwmni Teledu'r Tŵr ar gyfer ffilmio rhaglen deledu yn ne Sbaen. Buont yno am bythefnos ddiwedd Mawrth a dechrau Ebrill. Dangosir y rhaglen ddogfen ar ffasiynau ar S4C ar Mai 18.

Gall Llinos, sy'n gweithio fel clerch i gwmni ym Methesda, dystio fod gwaith model yn un caled iawn. Roedd gofyn iddynt ffilmio ddydd a nos. Er hyn roedd yn ddiddorol iawn gan fod yn rhaid actio yn rhai o'r golygfeydd.

Roeddent yn arddangos dillad o bob math gan enwau megis Kriss, Laura Ashley, Secret Agents a Matchplay - rhai ohonynt yn ddrud iawn. Gwisgoedd Llinos un ffrog oedd yn costio tua £700 - ac nid honno oedd y ddrutaf yno!

Buasai Llinos wrth ei bodd bod yn fodel broffesiynol. Cam calonogol iddi yn y cyfeiriad hwnnw yw bod cyfle iddi hi a'r merched eraill i wneud rhaglen gyffelyb yn y dyfodol agos - yn Cairo.

LLONGYFARCHIADAU I'N BANDIAU

Mae gennym, yn y fro hon, bob hawl i ymhyfrydu yn ein bandiau. Ddydd Gwener y Groglith llwyddodd Deiniolen a Llanrug yn anrhydeddus yn eu gwahanol adrannau o'r rowndiau rhagbrofol yng Nghystadleuaeth Pontins.

Bu'n rhaid i Lanrug deithio i Brean Sands ger Weston-super-mare ond daethant yn gyntaf allan o 19 o fandiau o dde Cymru a de Lloegr.

Yn Southport oedd cystadleuaeth Deiniolen a daethant yn ail allan o 22 o fandiau.

Rhoddodd y beirniaid glod i'r ddau fand ac roedd y marciau o 185 i Lanrug a 179 i Deiniolen yn adlewyrchu safon uchel eu paratodau a'u perfformio.

Bydd y ddau fand yn cystadlu yn y rownd derfynol yn Pontins Prestatyn ym mis Hydref.

NORMAN JONES

4 Tai Disgwyfla
LLANRUG

Ffôn:
CAERNARFON 3476
GLANHAWR
FFENESTRI

* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio - tu fewn a
thu allan

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

SEINDORF - Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y seindorf ar Ebrill 5 ac etholwyd y canlynol yn swyddogion am 1984:

Llywydd, Mr Ernest Burrows; Cadeirydd, Mr Merfyn Lloyd Jones; Is-gadeirydd, Mr Gwyndaf Jones; Ysgrifennydd, Mr Albert Rees; Trysorydd, Mr Gareth Hughes; Llyfrgellydd, Mr John Williams; Ysgrifennydd y Wasg, Mr Richard O. Jones; Cyfarwyddwr Cerdd, Mr Frank Boylin; Seindorf Feistr, Mr John Tame; Is Seindorf Feistr, Mr Glyn Williams.

Ebrill 17, recordiodd y seindorf raglen i gystadleuaeth 'BBC Radio Wales Band of the Year' yn Neuadd Penrhyn, Bangor. Bydd y rhaglen i'w glywed ar Fai 11 am 9.30 pm (VHF) a hefyd ar Fai 13 am 1.15 pm. Y gwrthwynebwyr fydd Seindorf Parc a Dare o'r De.

Enillwyr y pontŵn oedd Rhiannon Jones, Glyn Williams a Goronwy Roberts.

PROFEDIGAETH: Ddydd Sul, Ebrill 29 bu farw Mr T.W. Thomas, Berwyn yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon. Cydymdeimlwn â Mrs Thomas ei briod ac â Megan ac Eira, ei ferched, ac â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

ADFERIAD BUAN: Dymuna'r pentref a'r ardal adferiad llwyr a buan i Ashley le Cras (6 oed) sy'n dal yn ddifrifol wael yn Ysbyty Walton, Lerpwl yn dilyn damwain ar y ffordd fawr ger sgwâr y pentref.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth Ebrill 10, dan lywyddiaeth Mrs Ann Llwyd ac etholwyd swyddogion am y tymor nesaf.

Llongyfarchwyd Mr a Mrs T.W. Thomas, Berwyn, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth gan Mrs Margaret Parry. Bydd 'Miri Mai' yn Neuadd John Phillips, y Coleg Normal, Bangor, nos Wener, Mai 18 am 7.00 o'r gloch. Fe godwyd is-bwyllgor dan ofal Mrs Beryl Thomas i drefnu ynglŷn â'r gystadleuaeth Celf a Chrefft yn Sioe Llanelwedd. Thema'r gystadleuaeth eleni ydyw'r hen ddihareb 'Cadw dy afraid, at dy raid'.

Ddydd lau, Medi 17 cynhelir diwrnod agored yng Ngholeg Glynllifon. Thema pabell Merched y Wawr eleni fydd 'Môr a Mynydd'. Os oes gan rhywun ddeunydd perthnasol i'r thema 'Mynydd', a fuasai mor garedig â'i roi i Mrs Margaret Parry cyn Mai 6 (e.e. offer diwydiant llechi, neu amaethyddiaeth).

Treuliwyd gweddill y noson gydag

ychydig o frethyn cartref! Y pwnc oedd 'Fy newis i'. Daeth tair o'r Aelodau ymlaen. Roedd Mrs Joan Griffith wedi gwneud cacennau cartref a Mrs Marina Williams fisgedi byrdoes. Mawr fu'r holi am y risetiau ac ar y diwedd cafwyd tamaid i'w brofi. Rhoddodd Mrs Marina Williams hefyd gyfarwyddyd buddiol dros ben sut i wneud gorchudd clustog.

Dewisodd Miss Phyllis Ellis sôn am ei hoff ddau lais a daeth â record ohonynt. Llais ifanc, naturiol bachgen deg oed o Fôn yn canu cân werin mewn eisteddfod oedd y cyntaf. Yna llais un llawer hŷn - Syr Thomas Parry Williams yn adrodd cerdd o'i waith ei hun - 'Hon' - 'Beth yw'r ots gennyf fi am Gymru'.

Diolchwyd i'r tair gan Mrs Myfanwy Jones a rhoddodd ganmoliaeth uchel iddynt. Hyfryd oedd gweld talentau o'r newydd yn dod i'r amlwg.

Criw o ferched o Danycoed a baratodd y paned - Mrs K.A. Pritchard, Miss Megan Humphreys, Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Iola Butler a Mrs Megan Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Gwladys Medwen Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Joan Griffith. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 8, pryd y disgwylir Mrs Antoinette Hughes i roi arddangosfa coginio. Sylwer bod y Daith Ddirgel wedi ei symud i Nos Fawrth, Mehefin 5 (yn lle'r 12fed). Bydd pris am y bws a'r pryd bwdd tua £3.50.

SWYDD NEWYDD - Llongyfarchion a dymuniadau gorau i Mrs Carys Evans, Carwyn ar ei phenodi yn Bennaeth Adran Gwyddor Tŷ, Ysgol Brynrefail.

MARW - Yn Ysbyty Eryri, Ebrill 18, bu farw Mrs Ann Ellen Pritchard, Pensarn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, ei mab a'i merched a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

HAFAN ELAN - Nos Fawrth, Mawrth 27, treuliwyd noson ddifyr a diddorol yn y ganolfan yng nghwmni Ifan a Katie Williams, Caernarfon. Cafwyd sgwrs ynghyd â lluniau o'u gwyliau yn yr Eidal yr haf diwethaf. Diolchwyd iddynt gan Emrys Owen a Mrs Myfi Roberts. Llywydd y noson oedd Mrs Dilys Jones (Warden), hi hefyd a ddarparodd luniaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs John Morris, Rhif 12 ar ddathlu eu priodas aur ar Ebrill 2. Dymunwn iddynt flynyddoedd hapus a dedwydd eto i'r dyfodol.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Bydd y Daith Hanesyddol gyda'r Parch John Morris yn crwydro rhannau o Fôn ar Fehefin 9. Derbynnir enwau gan yr ysgrifenyddes, Mrs Thomas, Dolwar.

RHODD: Dymuna Gwmni Drama Llanberis ddiolch o galon i Glwb Blodau'r Grug am eu rhodd hael o £85 i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

"COFION CYNNES, HELEN STABLA"

Dyna gyfarchiad Mrs Helen Ireland o Awstralia ar ddiwedd sgwrs gyda gohebydd yr Eco. "Peidiwch â dweud 'Helen Ireland'," oedd ei rhybudd. "Fydd 'na neb yn fy nghofio i felly."

Daeth Mrs Ireland (sydd yn chwaer i Mrs Mary Davies, Gohebydd yr Eco ym Mhenisarwaun) yn ôl i Gymru am y tro cyntaf ers 26 o flynyddoedd ganol mis Ebrill, ac mae hi a'i gŵr yn aros yng ngwledydd Prydain (gan deithio yn ôl ac ymlaen rhwng Penisarwaun a chartref Mr Ireland yn St Andrews, Yr Alban) tan ddechrau Mehefin.

Beth yw argraffiadau Mrs Ireland wrth ddod yn ôl i'w hen fro? "Mae'r tai wedi newid - rhai stadau newydd ym Mhenisarwaun - ond mae 'siâp' y fro yr un fath." Gwelodd fod yr Ysgol, yr Eglwys a Siop Gron yn edrych yn union fel o'r blaen ond bod Stabla wedi newid yn ofnadwy. Yn y llun (a dynnwyd gan Andrea Patterson o Benisarwaun) gwelir Mrs Ireland yn sefyll y tu allan i'w hen gartref, 1 Craig Dinas, Stabla.

Wrth gwrs, cofia'r Chwael a'r lein oedd yn pasio'i chartref a'r "carriage" felan oedd yn mynd i fyny bob wythnos yn cario cyflog y dynion i'r chwael.

Roedd hi wrth ei bodd i gael cyfle i weld rhai hen ffrindiau o ddyddiau ysgol, ac wedi cael cyfle i fynd o amgylch mynyddoedd Eryri yng nghar Dave Patterson, mab yng nghyfraith Mrs Mary Davies. Ond daeth nodyn o dristwch i'w llais wrth iddi sôn am y nifer o'i chyfoedion sydd wedi marw er yn weddol ifanc.

Un siom iddi oedd bod ei gŵr yn gwrthod yn lân â dringo i dop Craig Fawr gyda hi! Mae'r ddau wedi ymweld ag Amgueddfa'r Chwael yn Llanberis. Barn Mr Ireland oedd y dylid rhoi lluniau rhai o'r hen chwaelwyr ar y darnau llechi a werthir yn y siopau yn hytrach na'r anifeiliaid a'r golygfeydd a geir arnynt ar hyn o bryd.

Wrth sôn am siopau, soniodd Mrs Ireland wedyn am Siop Griffiths lle mae Fresh Winds (cartref Mr a Mrs W. Mathews) heddiw. (Ydych chi'n cofio'r "Swiss Roll" Anti Meri?) Gweithiodd Mrs Ireland yn y siop am ychydig.

Soniodd am gerdded milltiroedd gyda'i ffrindiau. Un o'r pethau oedd yn uchel ar ei rhestr o bethau i'w gwneud oedd cerdded i weld Ffynnon Cegin Arthur. Treuliodd ei

phlentyndod yn chwarae ar lan Afon Stabla neu ar Graig Fawr - yn hel llus a mwyar duon.

Ynglŷn â'i chartref newydd yn Awstralia soniodd mai'r un yw'r problemau yn y wlad honno. Mae diweithdra yn broblem ddifrifol. 'Does dim gobaith cael swydd i unrhywun dros 50 oed. Mae fandaliaeth yn broblem fawr arall. Gellir disgwyl bricsen drwy'r ffenestr ar unrhyw adeg ac mae pobl yn ofni ffonio'r Heddlu i gwyno am ymddygiad y plant. Er nad yw meddwi'n broblem eithriadol, mae cyffuriau'n datblygu'n broblem enfawr.

Mae "gwraig tŷ" yn beth anghyffredin iawn gan fod gwragedd priod, bron yn ddi-eithriad, yn gweithio. Mae hyn yn arwain at broblem gymdeithasol fawr, sef y "latch-key kids" fel y'u gelwir, sef plant yn cyrraedd adref a neb yno i'w disgwyl. I leddfu ychydig ar y broblem mae'r ysgolion yn cynnal mwy o glybiau ar ôl oriau ysgol.

Mae pobl Awstralia wedi mopio efo chwaraeon. Yn ogystal â chriced a rygbi maent yn chwarae'r hyn a elwir yn "Australian Rules Football". Peth peryglus yw priodi ym mis Medi (tymor pwysicaf y gêm) oherwydd bydd peryg i'r offeiriad fynd o'r eglwys ar ganol y gwasanaeth i glywed y sgôr ar radio'r car!

Mae crefydd ffurfiol yn yr Eglwys a'r capeli yn colli tir yn gyflym. Yn y Capel Cymraeg dim ond 12 sydd yn siarad yr iaith bellach.

Yn y nos mae'n beryglus iawn i deithio ar y trenau, yn enwedig i ferched. Mae'n amhosib eistedd bron oherwydd mae fandaliaid wedi rhwygo'r rhan fwyaf o'r seddau.

Mae prisiau'n debyg yn y siopau ond mae cig yn rhatach yn Awstralia.

Ar ddiwedd ei sgwrs dywedodd Mrs Ireland ei bod hi'n awyddus i ymddiheuro yn yr Eco am fethu â chysylltu â nifer o hen ffrindiau, a'i geiriau olaf wrth bawb yn y fro oedd:

"Cofion cynnes, Helen Stabla."

Ein dymuniad ninnau wrth ddiolch iddi am roi o'i hamser prin i siarad â ni yw "Brysiwch yn ôl atom eto, a phob bendith i'r ddau ohonoch chi yn ystod gweddill eich arhosiad, ac yn ystod y daith hir yn ôl i Awstralia."



Mrs Ireland yn sefyll wrth ddrws ei hen gartref, Craig Dinas. (Llun gan Andrea Patterson, Penisarwaun.)

EISIAU CLIRIO'R Tŷ?
Am gael gwared â hen
ddodrefn, celfi ac ati?

Os am werthu neu
brynu cysylltwch
gyntaf â

BRIC A BRAC

(David a Dilys Evans)

Ffordd yr Orsaf

LLANRUG

Ffôn Caernarfon

76685

YN ARDAL ECO'R

WYDDFA,

AR GARREG EICH DRWS

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch



CAERNARFON 3674

i drefnu amser

STORFA

Mace

John a Roberta

Griffith

Sgwâr

Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Hanes ac atgofion am Felin Sam

Ymddiheuraf i'r rhai ohonoch sy'n disgwyl mwy o hanes Dewi Peris ond bu ymateb brwd i'r cais am wybodaeth am Felin Sam, ac felly, dyma benderfynu cofnodi hwnnw'n gyntaf cyn iddo fynd yn angof.

Yn rhyfedd iawn, daeth yr holl ymateb o bentref Llanrug yn hytrach nag o ardal Clwt y Bont a Deiniolen. Pam tybed?

Bu Mr Ifor Williams, Gwelfryn, Llanrug yn chwilota mewn hen draethawd eisteddfodol o 1868. Fe'i hysgrifennwyd gan D.M. Jones, hanesydd Clwt y Bont a'r Waen Gynfi. Dyma rai nodiadau:

Cyfodwyd melin lechi gan Samuel Jones, Glandinorwig yn 1854 tua chanol Rhiwgoch (allt Sam yn awr), a hon oedd y felin fwyaf yn y cylch. Yn 1861 adeiladodd yr un gŵr felin arall gerllaw Tŷ'r Clwb yn nes i fyny yng Nghlwt y Bont (Felin Uchaf). Rhwng y ddwy felin yma cynhyrchir yn agos i 3,000 o lechi wedi eu cwblhau pob dydd. Fe wnaeth hefyd adeiladu ei drydedd felin gerllaw y felin isaf, yr olwyn ddŵr hon yn 30 troedfedd ar ei thraws ac yn 4 troedfedd o led, nifer yr holl weithwyr yn y melinau yma oedd rhwng 50 a 60.

Mae Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug a chysylltiad teuluol â Samuel Jones a adeiladodd y Felin. Fel hyn y mae hi'n adrodd peth o hanes y teulu:

'Yr oedd Samuel Jones yn gefnder i fy nain Mrs Mary Pierce Williams a oedd yn byw yn Nhyddyn Rhuddallt, Llanrug. Cofiaf i fy mam ddweud iddo fod yn eglwyswr selog. Yr oedd ei frawd Moses Morgan Jones yn berson, ac fel Moses Ship y'i galwyd, bu'n byw yn Rhys Forgan, Llanrug, a fo roddodd yr enw ar y tŷ, ac fel Sam Ship yr adweinid Samuel Jones, Ship yn fwthyn bach ym Mhonrhythallt. Credaf iddo

fod yn dŷ tafarn ar un adeg.

Cofiaf i fy mam ddweud iddi ei gyfarfod ar stesion Caernarfon y diwrnod oedd hi'n priodi. Ysgydwodd law efo hi a'i llongyfarch a dweud 'Yng ngenau'r sach mae cynilo, 'ngenath i'. Ond meddai nain 'Roddodd o ddim byd imi ddechrau cynilo chwaith'. Byddai chwaer fy nain a'i brawd yn gwneud mwy efo fo, gan fod mam i ffwrdd oddicartref, ond yn anffodus iawn nid yw eu plant nhw yn cofio fawr ddim am y sôn amdano.

Ynglŷn ag Allt Sam yr oedd Samuel Jones a William Jones, Siop Coed Helen, Clwt y Bont, taid fy ngŵr, ar y Cyngor Sir, ac ni chytunai William Jones ag adeiladu'r ffordd heibio'r felin, ac yr oedd o yn awyddus iddi fynd y ffordd y rhedai'r hen lôn haearn, i osgoi cael allt serth, ond Samuel Jones a enillodd y dydd.

Yr oedd yr hen lôn haearn yn cael ei defnyddio i gario llechi o waelod yr inclên, mewn wagenni gyda cheffylau yn eu tynnu. 'Troi'r ffordd i'w felin ei hun' wnaeth Sam Jones, a phan fo rhew ac eira y mae trafnidiaeth yn methu mynd i fyny yn aml, am ei bod yn allt mor serth. Felly mae'n edrych mai taid fy ngŵr oedd yn iawn.'

Bu Mrs Jones yn sgwrsio hefyd â Mr Owen Henry Jones, Llwyn Onn, Llanrug sydd bellach ymhell dros ei bedwar ugain oed. Dyma rai nodiadau o atgofion Mr Jones am ei blentyndod yn ardal Clwt y Bont

ar ddechrau'r ganrif:

'Cefais fy ngeni yn 1 Rhes Isaf, Clwt y Bont ym mis Mai 1898. Roedd fy nhad yn gertmon yn Felin Sam, ond bu farw pan oeddwn yn 4 oed. Aethom i fyw i Raca wedyn. Wrth fynd i'r ysgol efo fy mrawd Wil, byddem yn cyfarfod yr hen Sam ar yr allt, a chael ceiniog ganddo.

Ar yr allt, fe sylwch fod yna dyllau yn y wal, a Judas Spy oedd o yn gweithio yn y caeau. Mi wnaeth ei ffortiwn a'u gadael i gyd i Eglwys Llandinorwig ac i helpu hogia ifanc i fynd yn bersoniaid. Felly roedd nhw yn mynd i'r nefoedd yr amser honno.'

Beth yn hollol oedd Judas Spy neu pwy oedd? Ai cyfeirio at Samuel Jones a wna Mr Jones, oherwydd dywed ei fod yn ei gofio'n iawn 'gyda'i glociau sglein'.

Mae'n mynd ymlaen i gofio am ardal y Waen Gynfi:

'Roedd yna dri chapel: Disgwylfa, Libanus a Maes y Dref, a dau dy tafarn: King's Head a Cwerin (?). Cofio hen wraig y King's Head yn gweiddi 'Cwrw da ydi cwrw ni; Duw a'ch bendithio'. Mae hefyd yn rhestru nifer o siopau'r cylch:

'Siop Owen Celyn, Tom Jones a'i chwiorydd yn 'milliners', a John Williams (blaenor yn Disgwylfa) yn gwerthu dillad. Siop John Hughes - yn dod â ham efo fo o Langeini - a gwerthu roast pork a phwdin gwaed.' Enwau Cymraeg oedd ar y strydoedd i gyd: 'Rhes ucha, rhes isa, rhes ganol, rhes groes, Tan y Ffordd a Lôn Bwthyn. Fferm oedd Bwthyn lle mae tai Pentre Helen a Hafod Olau heddiw. I Dy gwair y Bwthyn y byddai cyplau'n mynd i garu - twll yn y wal i fynd i mewn. Rhywun yn rhedeg i ddweud wrth y gwas ac yntau yn cau arnynt! Dwn i ddim sut oeddynt yn dod allan!'

Nid siopau'n unig a gyflogai bobl yr ardal. Roedd mân ddiwydiannau yn bod:

'Roedd siop barbwr Tom Llewelyn dros y ffordd i siop Robin y crydd. Cario glo oedd

busnes Tom Jones a'i frawd Robert James Jones o Bonrhythallt. Rwyf yn cofio yn iawn un dydd Sadwrn, gweld trol a dau geffyl yn dwad i lawr i ddwy inclên, a'r ceffylau'n chwys doman yn troi dal y drol, a'r hen foi'n cysgu'n braf - ond sac yn syth gafodd o.' Mae ganddo hanesyn diddorol am y gwerthwyr a grwydrai'r strydoedd i bedlera'u nwyddau. Un o'r rheini oedd cymeriad o Gaernarfon o'r enw Twm Pennog:

'Wrth ymyl Kent, Pontrug, byddai Twm Pennog yn gollwng ei ddau filgi i'r caeau i ddal cwnigen. 'Fresh' oedd enw un, a 'Pennog' oedd enw'r llall, ac oes oedd yna drwbwl efo'r ffermwr, byddai Twm yn gweiddi, 'Pennog, Fresh, newydd ddod o'r môr' a byddai'r ddau gi yn dod yn ôl i'r ffordd fawr o'r caeau!'

Mae Mr Jones yn holi hefyd pam y rhoddwyd yr enw 'Cross Keys' ar y tŷ isaf yn y rhes isaf? Tybed a fu tŷ tafarn yno ar un adeg? Mae hefyd yn dweud fod y Salvation Army wedi bod yn cynnal cyfarfodydd yn Llofft y Felin ar un cyfnod. Oes rhywun arall yn cofio hyn?

Llawer o ddiolch i bawb am y wybodaeth ynglŷn â Melin Sam ac ardal Clwt y Bont. Gobeithiwn ddychwelyd at hanes Dewi Peris y mis nesaf. Ond cyn cau pen y mwdwl am y mis, dyma un cais a ddaeth i law yn holi am y gwahaniaeth rhwng claddu dan yr hen drefn a chladdu dan y drefn newydd. Pa bryd y dechreuwyd claddu dan y drefn newydd ac a oes bosibl claddu dan yr hen drefn o hyd? Anfonwch eich nodiadau neu ffoniwch y Golygydd Erthyglau.

OCSIWN I EWROP!

Os ydych am fargen cofiwch am yr Ocsiwn a gynhelir ar ddydd Sadwrn, Mai 12 yn Neuadd y Santes Fair, Bangor (ger Kwiks isaf) rhwng 10.30 o'r gloch ac 1.00 o'r gloch. Bydd yr elw at etholiad Senedd Ewrop Plaid Cymru. Bydd pob math o nwyddau ar werth, a'r mynediad am ddim. Gellir gweld y nwyddau yn y neuadd o 9.30 o'r gloch ymlaen.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

Osmond
W. Shaw

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. Arddangosfa o hen luniau chwarel.

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn,
Llanberis

DEINIOLEN

Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen. (Ffôn: Llanberis 871259).



Pedair cenhedlaeth, sef y ddiweddar Mrs Jane Foulkes, Neuadd Cynan, Hafod Olau, Mrs Gwenhwyfar Jones, Adrian, Francis o Bentraeth.

DIOLCH – Dymuna William Orwig a Brenda, 6 Rhydfadog ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion hardd a dderbyniasant ar achlysur eu priodas arian yn ddiweddar. Hefyd, diolchiadau cynhesaf i bawb o'r teulu a'r ffrindiau am yr help llaw a gawsant i symud tŷ.

EBENESER – Nos Sul, Mawrth 25, derbyniwyd 11 o bobl ifanc y Capel yn Gyflawn Aelodau. Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog, y Parch Trefor Lewis. Anrhegwyd pob un gyda llyfr emynau. Dyma enwau'r rhai a dderbyniwyd yn aelodau:

Edwina Jones, Wendy Jones, Eleri Owen, Eiriona Owen, Rhian Owen, Rhienallt Parry, Ieuan Parry, Gwyn Jones, Cheryl Parry, Carol Jones, Einir Lewis.

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd yr uchod yn y Clinig, brynhawn dydd Mawrth, Ebrill 17. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol: Mrs Nell Griffith, Mrs Jane Eirlys Williams, Miss Lisi Thomas, a Mrs Betty Wyn Davies. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno gartref ac mewn ysbytai. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ethel May Roberts, ac fe'i henillwyd gan Mrs Kate Ellen Davies. Dymuna'r pwyllgor ac aelodau'r Clwb ddiolch yn gynnes iawn i Mr a Mrs Jacob James am rodd anrhydeddus i Glwb Elidir. Ar derfyn y te, cafwyd cyfarfod i ddathlu'r Groglith dan ofal Mrs Megan Morris, Dinorwig. Cymerwyd rhan gan yr aelodau canlynol: Mrs Elsie Davies, Mrs Ellen Williams, Mrs Betty Wyn Davies, Mrs Jane Eirlys Williams, Mrs Megan Morris, Mrs C. Marren, Mrs Jane Jones, Mrs Katie Griffith, Mrs Miriam Lewis, Miss Moller, a Miss Kathleen Jones.

Dyddiadur y Clwb – Dydd Mawrth Mai 1; Dydd Mawrth Mai 15; Dydd Mawrth Mai 29.

SEINDORF

Diolch i bawb hefyd am eu cefnogaeth pan gynhaliwyd Noson Goffi lewyrchus iawn nos lau Ebrill 12.

Enillwyd y rafflau gan y canlynol: Teisen, Mrs Hefin James, Llanrug; Lamp fwrdd, Caradog Thomas, Bro Helen.

Enillwyr Clwb 200 am fis Ebrill: 1. £25 Caradog Thomas, Bro Helen, Deiniolen; 2. £15 Mrs M. Jones, 1 Pentre Helen, Deiniolen; 3. £5 Mrs E. Hughes, 5 Rhes Victoria, Deiniolen.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 2, gyda'r llywydd yn arwain. Darllenodd y llythyr misol a ddarllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson ddifur iawn gyda Mr W.W. Griffith, Bethel, yn sôn am hen bethau. Diolchwyd i Mr Griffith gan Mrs Gwen Hughes, Rhiwen, Mrs Hughes a enillodd y raffl hefyd. Rhoddwyd y te gan Mrs Rita

Jones, Y Becws, a Mrs Marian Williams, 12 Ffordd Deiniol. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Thomas, 7 Ffordd Faenol, un o aelodau selog y Sefydliad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 14 pryd y disgwylir Mrs Maud Williams, Caernarfon V.C.O. i siarad am y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn Llundain ym mis Mehefin.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan Nos Lun 19 o Fawrth o dan Lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Cafwyd noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol iawn gan y Parch E.T. Roberts, Ficerdy Santiago, Bangor. Siaradodd Mr Roberts am ofergoelaeth a Christionogaeth. Diolchwyd iddo gan Mrs Dilys Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwladys Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Marian Wyn Williams. Fe'i rhoddwyd gan Miss Kathleen Jones. Dalier sylw y bydd y cyfarfodydd o hyn ymlaen yn dechrau am 6.45.

Nos Lun 16 Ebrill aeth y Merched i ymweld â Gorsaf Drydan Dinorwig. Cafwyd noson hynod o ddiddorol, dan ofal Mr John Hughes. Cyn cychwyn i'r orsaf cafwyd braslun o'r hyn a oedd yn digwydd yno a chafwyd ffilm i ddangos sut yr oedd yn gweithio. Wedi hyn yr oeddym yn mynd o Glyn Rhonwy i'r orsaf drydan o dan ofalaeth Jean a Nia. Carem ddiolch yn fawr iawn i Mr John Hughes, Jean a Nia am roi o'u hamser inni.

I orffen y noson cafwyd pryd o fwyd yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Rhoddodd hyn ddiweddglô da iawn i'r noson hynod o ddiddorol yma.

PLAID CYMRU – Cyfarfu pwyllgor y gangen yn Ninorwig nos Fercher, Mawrth 28, dan gadeiryddiaeth Mr Gwyn Parry. Etholwyd Mrs Tina Keller i gynrychioli'r gangen yng nghyfarfodydd Adran Merched Plaid Cymru ym Mlaenau Ffestiniog ar Fawrth 31.

Dyma restr o enillwyr Clwb Cant dros gyfnod o dri mis: Ionawr – £10, rhif 2, Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel; £8.50, rhif 96, Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

Chwefror – £10, rhif 67, Mrs Gwladys Jones, Tŷ Capel Libanus; £8.50, rhif 40, Mrs C. Jane Jones, 33 Hafod Olau. Mawrth – £10, rhif 44, Mr Gwilym Williams, 22 Hafod Olau; £8.50, rhif 13, Mr T.A. Parry, Bro Dawel.

Aethpwyd ati i wneud trefniadau ar gyfer y noson o Gawl a Chân sydd i'w chynnal ym mis Mai. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar y 24ain o Ebrill.

CEFNYWAUN: Nos Sul Ebrill 1 cynhaliwyd gwasanaeth i dderbyn naw o bobl ifanc yn gyflawn aelodau yn Eglwys Iesu Grist. Y naw oedd, Wendy Jones, Yvonne Jones, Helen Mair Jones, Sandra Jane Williams, Andrea Morris, Gwenlli Roberts, Ian Roberts, Glyn Griffith a Haydn Maxwell. Cyflwynwyd copi o'r Testament Newydd. Yn ystod y gwasanaeth derbyniodd y bobl ifanc eu Cymun Sanctaidd cyntaf.

DISGWYLF: Yr oedd nos Sul, Ebrill 15 yn noson bwysig yn hanes tri ar ddeg o bobl ifanc yr eglwys gan iddynt gael eu derbyn yn gyflawn aelodau yn Eglwys Iesu Grist. Cyflwynwyd copi o'r Testament Newydd i Geraint Jones, Mervyn Morris, Dewi Wyn Lewis, Dylan Wyn Jones, Bryn Jones, Elfed Wyn Williams, Dewi Rees Williams, Carwyn Thomas, Ceirion Thomas, Anwen Thorman Jones, Delyth Fon Williams, Delyth Williams a Dilwen Williams. Yn ystod y gwasanaeth derbyniodd y bobl ifanc eu Cymun cyntaf.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU – i'r plant canlynol o Eglwys Tan -y-Coed M.C. fu'n llwyddiannus yn Arholiad Sirol Ysgol Sul Henaduriaeth Arfon. Gwobrwyir hwy yn y Cyfarfod Gwobrwyio yng Nghapel Twrgwyn Bangor, Mai 15.

8-9oed Aled Parry a Mark Wyn Jones. 9-11oed Eifion Jon Williams, John Elwyn Jones, Annwen Parry a David Parry. 11-14oed Bethan Lewis Parry.

Bu y plant uchod a Tudor Wyn Jones yn llwyddiannus hefyd yn Arholiad Ysgrifenedig Cyfarfod Ysgolion M.C. Dosbarth Caernarfon a gwobrwyir hwy yn y Gymanfa a gynhelir yng Nghapel Engedi Caernarfon, Mai 6.

Llongyfarchiadau i John Elwyn

Jones eto am ei lwyddiant yn pasio Arholiad Gradd 2 Y Royal School of Music, am chwarae'r piano. Ei athrawes y Mrs Griffith, Llanberis.

Aeth John gyda'i gyfoedion o Ysgol Gynradd Llanrug i wlad Belg dydd Llun Mai 23. Hwyl fawr i'r plant a'r rhai sydd yn gofalu amdanynt - gwyliau hapus a siwrne ddiogel gysurus yn ol i Lanrug.

Un arall fu'n llwyddiannus mewn Arholiad Y Royal School of Music yw Manon Llwyd Evans. Cafodd hithau Gradd 2 am chwarae'r ffidil. Llongyfarchiadau Manon ac i mam Manon - Mrs Carys Lloyd Evans, Carwyn ar ei phenodiad yn Bennaeth Arfon Gwyddor Tŷ yn Ysgol Uwchradd Brynrefail Llabrug.

Bydd Mrs Evans yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi. Pob dymuniad da iddi.

COLLI HWRDD PEN DDU

Holl drigolion Betws Garmon Dewch i wrando gair o'r galon, Mae 'rhen hwrdd a fu mor arw Wedi'i gario am Ffridd Garw.

Roedd 'rhen William yn ei ddyblau Wrth weld Gwynfor yn ei ddagrau, Pam na wyddai gŵr o brofiad Fod ei gost yn destun siarad?

Y 'Neslon' sydd yn ddiawl o walidwr Ond yn wir yn wych o fridiwr, Ac os na chymeri gyngor Colled arall gei di Gwynfor.

Annwyl Pierce, ŵr Glan'rafon Dewch yn wir i godi'm calon Carwn wir gael hwrdd pen ddu O'r un radd â chorffyn cry.

'Chaiff 'rhen William mono'i weled Mae y cythral ar ei ddyled, Colled Pierce, ond un dost William annwyl, tala'r gost.

DI-ENW



Anfonwyd y llun yma ohonni hi a'i chefnider Mr Harry Jeffrey Roberts, Tainewyddion gan Mrs Megan Williams Dwyfor. Bydd y llun o ddiddordeb arbennig i'w cyfoedion. Un o blant Eglwys Tan-y-Coed yw Mrs Mrgan Williams, a Mr Roberts yn un o blant Eglwys Ceunant.

Heddiw mae'r ddau yn aelodau ffyddlon yn Eglwys Tan-y-Coed.

Y SAMARIAID YN DOD I WYNEDD

Mai 19, agorir cartref y Samariaid yn 7 Abbey Road, Bangor. Hon fydd y gangen gyntaf yng Ngwynedd.

Cynigir gwasanaeth ar gyfer y di-obaith, yr unig, a'r rhai sydd yn meddwl am hunan-laddiad. Fe bwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod pob galwad ffôn neu ymweliad â'r Ganolfan yn gwbl gyfrinachol rhwng yr ymholwyr a'r gwirfoddolwyr.

Bu paratodau mawr yn yr adeilad, gan osod ffoniau, gwresogi, ail drefnu ystafelloedd ac addurno. Mae 88 o wirfoddolwyr yn barod i

gychwyn eu dyletswyddau ar yr 20fed o Fai, er mwyn sicrhau gwasanaeth am bedair awr ar hugain bob dydd. Cawsant eu hyfforddi gan Samariaid o gangen y Rhyl. Er bod rhagor yn barod i ddilyn y cwrs nesaf, fe apelia'r Cyfarwyddwr am fwy o weithwyr. Os oes gan unrhyw ddarlennydd ddiddordeb yn y gwaith, yna cysylltwch â'r Cyfarwyddwr, 7 Abbey Road.

Bydd y Ganolfan yn agor Mai 19 o 10 y bore tan 6 y prynhawn i bawb sydd â diddordeb yn y gwaith.

DEINIOLEN

C
A
B
S

Gwasanaeth 24 awr –
unrhyw bellter
Eich rhedeg i'r Maes
Awyr neu'r Porthladd
Bws Mini 12 Sedd

Ffôn: Llanberis
871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

MEDALAU'N DWYN ATGOFION

Goronwy Owen

Tair medal pêl droed, eu cot o arian wedi dechrau rhwbio i ffwrdd; y dair wedi'u cadw fel trysor am hanner canrif. O dro i dro, tynnaf hwy allan i edrych arnynt, a nofio mewn atgofion hiraethus. Wonder Bar oedd enw'n tîm ni. Ar y pryd, Merle Oberon oedd cariad pob un ohonom. Ar fore Sadwrn, ac ambell i gyda'r nos cyn iddi dywyllu, casglen yng nghae coed, Boncan Beale, i chwarae ar ei wyneb noeth caregog. Ceisiasom glirio'r mân lwyni i ehangu'r lle, ond roedd y gwreiddiau yn codi'u pennau, ac yn achos troi llawer i ffêr. Er hynny, gan fod pob cae addas arall wedi'i wahardd i ni, un ai gan ffermwyr neu'r plismyn, rhaid oedd i ni fodloni ar unrhyw glwt o dir lle roedd rhyddid i ni fwynhau'n hunain.

O dro i dro, rhedai clwb y pentre Gystadleuaeth Pêl Droed. Yn 1935 a 36, roedd Dosbarth dan 18 oed. Criw o hogia chwarel oedd y tîm i gyd ar wahân i Meic Glynddôl a minnau. Dewisom wisgo crysau gwyn, gan nad oedd gennym set o grysau priodol, a doedd dim dau o'r rheini yn matchio. Guto Crydd oedd ein 'manager'. Yn ei siop ef y casglen gyda'r nos ar ôl iddi dywyllu. Er ei fod yn gloff, deuai hefo ni weithiau i chwarae yn gôl. Roedd yn hynod o chwim ar un faglan, ac roedden ni fechgyn yn meddwl y byd ohono. Llew Coed oedd ein capden a'n senter half, a Cemlyn Ffordd Turner oedd ein senter fforward, dau a gollwyd yn llawer rhy gynnar i ffwftbol Llanber. Roeddwn i yn nhîm Ysgol Brynrefail, ac wedi i mi roi fy neunaw i Wonder Bar, penderfynodd Bob Lloyd Charlotte St., fod tîm yr ysgol am gymryd rhan. Cofiaf gael tafod gan Jones Cem am i mi benderfynu aros efo Wonder Bar a chwarae yn eu herbyn yn y 'final'. Doeddwn i ddim yn boblogaidd am ryw wythnos neu ddwy wedyn, oherwydd ni enillodd, a ni enillodd yn 36 hefyd. Dyna sut cefais i ddwy o'r medalau.

Ond beth am y drydedd fedal?

I Wil Padarn Road a Wil Davies Pen 'rallt mae'n rhaid i mi ddiolch am honno. Cofiaf nhw yn gweiddi i lawr stryd ar fy mrawd:

'Rhys, beth am dîm i'r competition? Sut mae'i dallt hi?' 'Tîm o lle?'

'O Llainwen wrth gwrs.'

'Does dim digon o hogia.'

Nefoedd oes, a mi gawn ni sbort.'

Buan y cawsom ni ddigon o enwau, a practis yn weigrlodd Wili Hughes hefo pêl denis o dan lygaid pryfoclyd rhai o'r merched. Holais rai o'm cyfeillion i sicrhau enwau y chwaraewyr, a dydw i ddim yn berffaith siŵr eto o'm manylion, ond fel hyn y cofiaf fi y tîm.

Harri Jones

James Jones (Llwyn Eilian)

G. Owen

William Owen

Wil Griffiths (Padarn Road)

Harri Parri

Wil Davies (Pen Rallt)

Rhys Owen

Wil Roberts (Tai Cris)

Wili Huws (Llwyn Dyrys)

Dic Owen (Mur Cwyp)

Tim o Willies meddech chi, a Wil (Wil John Davies) oedd y refferi hefyd, ond er mai mewn hwyl y trefnwyd y tîm yma, fe allaf eich argyhoeddi nad tîm o stiffs dwy goes chwith oedd, o bell ffordd. Na, roedd Wil Padarn Road a Wil Tai Cris yn aelodau o dîm mawr y tridegau, Rhys a Wil Davies yn hen chwaraewyr, Dic Owen wedi chwarae yng Nghynghrair Sir Fôn a Harri Bach a finnau yn chwarae i Ysgol Brynrefail. Hon oedd gêm agoriadol y Competition, ar nos Lun braf o wanwyn. Roedd merched y stryd wedi rhoi baneri ar draws y ffordd, yr un baneri ag oedd allan adeg Jubilee George V. Trwy'r dydd, bu cellwair a phryfocio yn y chwarel, ac roedd



Cae Padarn Villa yn orlawn, pobl o bob rhan o'r pentre wedi ymgynull i fwynhau'r digrifwch. Roedd hyd yn oed fy mam wedi dod yno, peth hollol anghyffredin. Yn erbyn tîm y Barics roedden ni'n chwarae, hogia Sir Fôn i gyd ac felly cystal â bod yn dramorwyr, ac yn ei gwneud hi'n gêm ryngwladol. Rhedai rhyw wefr anghyffredin trwy pawb. Onid oedd cyfrifoldeb y stryd a'r pentre ar ein hysgwyddau? Erbyn Hanner Amser, roedd hi'n 1-1 a'r cynnwrf yn cynyddu. Braf fyddai gallu dweud i ni ennill, ond bu rhaid i William fy mrawd adael y cae ar ôl damwain. Doedd dim sybs bryd hynny, ac roedd ei golli yn ormod i ni. Y Barics enillodd 3-2, a chredaf i bawb gael eu bodloni.

Wrth gerdded adre'n flinedig dros Ben Graig, roedd yn amlwg fod y newydd drwg wedi cyrraedd o'n blaenau, oherwydd taflwyd llenni du mawr dros yu

baneri, ac roedd Jenny Humphries, Nell Parri ac eraill o'r merched yn eu dyblau yn chwerthin. Chwerthin wnaethom ninnau hefyd.

O, ie, y drydedd fedal. Wel mi ges i ac un neu ddau arall o'r tîm, free transfer i dîm y Barics erbyn y Ffeinal, yn erbyn tîm o'r pentra, sef Wil Penny, John Glyn, John Gwilym, Huw Mor ac eraill. Nhw enillodd 1-0 ond roedd yna fedalau Runners Up i Llainwen. Fyddai'r dair medal hefo'i gilydd ddim yn costio llawer o arian, ond nid trwy arian mae prisio bywyd.

LLANBERIS

(parhad o dudalen 5)

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi dan nawdd Staff y Clinic yn y Ganolfan nos lau, Mai 17 am 7.30. Byddai'r genethod yn falch iawn o unrhyw gyfraniad, yn nwyddau neu gacennau, er llwyddiant y noson. Bydd yr elw er budd Cronfa Theatr fach Gorffwysfa sy'n cael ei phwrcasu gan y Cwmni Drama Lleol.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

Am yswiriant ar gyfer eich car, tŷ, busnes, bywyd neu unrhyw angen arall cysylltwch â

Robin Jones a'i Gwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant
a Morgeisi

Llys Alaw
18 Stad Eryri
Bethel

Ffôn
Y Felinheli 670140

Regent House
Y Sgwâr
Llanrwst

Ffôn
Llanrwst 641154

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

ARIAN AT ACHOS DA

Ddiwedd mis Mawrth daeth cynrychiolydd o 'Help the Aged' i siarad â dosbarthiadau 1, 2 a 3 ac yn sgîl hyn cododd rhai o'r plant £200 i'r Gymdeithas hon. Hoffem ddiolch i bawb a noddodd y plant yn y gystadleuaeth.

EISTEDDFOD SIR YR URDD

Ar Fawrth 31 bu rhai disgyblion o ddosbarthiadau 4, 5 a 6 yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Bu'r Parti Adrodd i gyfeiliant yn llwyddiannus a byddant yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol ym mis Mai.

Daeth Lynne Jones yn drydydd ar yr unawd merched 15-19 ac yn drydydd ar yr adrodd 15-19. Daeth Mannon Williams yn ail yn yr un gystadleuaeth. Hefyd daeth y Parti Cerdd Dant yn drydydd. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddiant.

CYFLWYNO TESTAMENTAU

Daeth tri chynrychiolydd o Gymdeithas y Gedeoniaid i gyflwyno Testamentau newydd i bob disgybl yn y flwyddyn gyntaf. Cafwyd gwasanaeth arbennig a llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan. Cafwyd araith fer gan Mr Sutton ac yna cyflwynwyd Testament Newydd i gynrychiolwyr dosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf.

TRIPIAU

Aeth disgyblion sy'n astudio Cemeg yn y chweched i ymweld ag Atomfa'r Wylfa. Yn y prynhawn aethant i 'Associated Octel Limited' yn Amlwch lle maent yn cynhyrchu Bromine o ddŵr y môr.

BILLY LIAR

Yn ystod y mis aeth hanner cant o blant dosbarthiadau 4 a 5 i Theatr Gwynedd i weld y ddrama enwog 'Billy Liar'. Cafwyd perfformiad ardderchog gan y cwmni a mwynhaodd pawb y ddrama.

PÊL-DROED

Llangefni (gartref)

Dosbarth 1 - Tîm A, cyfartal 1-1; Tîm B, colli 4-1.

Dan 13, colli 3-1; Dan 15, cyfartal 3-3; Hŷn, colli 3-0.

Ysgol David Hughes (gartref)

Dosbarth 1 - Tîm A, colli 2-1; Tîm B, ennill 6-1; Dan 13, cyfartal 3-3;

Dan 14, ennill 5-0; Hŷn, cyfartal 1-1.

NOSON GOFFI

Hoffai Pwyllgor yr Urdd yn yr ysgol ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson



Parti Adrodd i gyfeiliant



Enillwyr Traws Gwlad Ysgol Brynrefail.



Y Tîm Nofio Buddugol

*Pinnau, potiau, platiau
Mapiau, mopiau, mygiau
Disgiau, desgiau, dysglau.*

Ydach chi'n casglu'r uchod
- neu'n casglu unrhyw beth,
ar wahân i lwch?

Os ydach chi, newch chi
anfon gair ata'i yn sôn am
eich casgliad.

Rydw i'n paratoi cyfres ar
gyfer Radio Cymru am
gasglwyr a'u casgliadau, ac yn
casglu gwybodaeth ar hyn o
bryd.

Diolch yn fawr, a gyda
gwên,

HYWEL GWYNFRYN

BBC

Llandaf
Caerdydd

Goffi ar Mawrth 22. Codwyd £220
tuag at yr adran.

COLEG CYNCOED

Ar brynhawn Ebrill 10 daeth Mrs Beryl Hall i ymweld â'r chweched dosbarth i siarad am Goleg Cyncoed, Caerdydd.

TRAWS GWLAD

Cynhaliwyd pencampwriaethau traws gwlad yr ysgol ddydd Iau, Mawrth 29. Sefydlwyd record newydd yn y ras i fechgyn y flwyddyn gyntaf gan Paul Prydderch o Lanberis. Daeth i mewn bron i funud yn gyflymach na'r hen record. Dyma'r canlyniadau i gyd:

Bechgyn Blwyddyn 1

1. Paul Prydderch (Eilian) 15m-25.8e - record; 2. Martin Owen (Eryri); 3. Dafydd Ll. Jones (Elidir).

Bechgyn dan 15 (Bl 2 a 3)

1. Stuart Williams (Eilian) 14m-58e; 2. Martin Roberts (Gwyrfa); 3. Neil Roberts (Eilian).

Bechgyn Hŷn (Bl 4, 5 a 6)

1. Steven Riley (Eilian) 22m-1e; 2. Stephen Owen (Eilian); 3. Ian Edwards (Eryri).

Genethod Blwyddyn 1. Gillian

Glass (Eryri) 23.05 ; 2. Wendy

Rowlands (Gwyrfa); Emily Adams

(Eilian). Genethod Dan 15: (Bl. 2 a

3): 1. Rhian Lewis, Eryri 18.01

Helen Mai Pritchard (Elidir); 3

Linda Fleming (Gwyrfa).

Genethod Hŷn

1. Anna Wood (Eryri); 2. Malanie

Sellers (Elidir)

CYFANSWM PWYNTIAU

Eryri 108; Gwyrfa 92; Eilian 92;
Elidir 57.

PÊL RWYD

Ysgol Syr Hugh Owen (oddi
cartref)

Tîm Bl 3, ennill 6-4; Tîm Bl 4, colli
17-1; Tîm Bl 5, colli 21-6.

GŴYL NOFIO CANOLFAN

CHWARAEON ARFON

O dan ofal Mr Howyn Jones fe aeth tîm o'r ysgol i gystadlu yng Nghanolfan Arfon yn erbyn timau eraill o ardal Arfon ar Fawrth 29. Cafwyd canlyniadau arbennig o dda, gyda bechgyn a genethod o'r ysgol yn ennill y rhan fwyaf o'r cystadlaethau. Bechgyn dan 12, 1 Aled Jones; Genethod dan 12, 1 Emily Adams; Bechgyn dan 15, 1 Mathew Shaw; Genethod dan 15, 1 Llinos Davies.

Rasus Cyfnewid: Bechgyn dan 12, 1 Dafydd Jones, Arwel Jones, Richard Parry, Aled Jones; Bechgyn dan 15, 1 Mathew Shaw, Nigel Thomas, Barry Evans, Dafydd Jones; Genethod dan 15, 1 Llinos Davies, Meinir Jones, Kirsty McCann, Louise Bernard.

GEMAU TAI

Dyma ganlyniadau'r gemau a chwaraewyd ar Ebrill 6. Pêl-droed: Bechgyn Hŷn, 1 Eryri; 2 Gwyrfa; 3 Eilian; 4 Elidir; Dan 15, 1 Eilian; 2 Gwyrfa; 3 Elidir; 4 Eryri; Dan 13, 1 Eilian; 2 Eryri; 3 Elidir; 4 Gwyrfa.

Pêl Rwyd: Genethod Hŷn, 1 Gwyrfa; 2 Elidir; 3 Eryri; 4 Eilian; Dan 15, 1 Gwyrfa; 2 Elidir; 3 Eryri; 4 Eilian; Dan 13, 1 Eilian; 2 Eryri; 3 Gwyrfa; 4 Elidir.

Hoci: 1 Eilian; 2 Elidir; 3 Gwyrfa; 4 Eryri.

Cyfanswm pwyntiau: Eilian 95, Gwyrfa 95, Eryri 80, Elidir 75.

BETHEL

Gohebydd - Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

YR YSGOL FEITHRIN: Bu'r plant yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwneud 'collage' yn dangos Plant y Byd. Arddangosir y gwaith yn llyfrgell Caernarfon yn ystod wythnos yr Ŵyl Feithrin o Fai 5-12.

Y NEUADD GOFFA: Ar nos Wener, Ebrill 6 cynhaliodd plant yr Ysgol ac Adran yr Urdd noson o adloniant yn y Neuadd. Yr oedd graen ar y perfformiadau a chafodd y gynulleidfa wledd. Bu'r noson yn llwyddiant mawr gan godi yn agos £100 tuag at gronfa'r Neuadd. Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a gymerodd ran, i'w hathrawon ac arweinyddion Adran yr Urdd.

Ymysg yr eitemau o Eisteddfod yr Urdd adrododd Sioned Owen, Cefn Cynrig 'Y Bwji' gan Emrys Roberts, a Wenna Williams, Ceris 'Murddyn' gan John Hywyn. Cafodd y ddwy lwyfan yn yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau ac ymddiheuriadau i'r ddwy am adael eu henwau allan o'r adroddiad yn y rhifyn diwethaf.

OFFERYNWYR IFANC: Aeth Ian Roberts, Bro Rhos a Sonia Diamond, Rhoslan ar gwrs i offerynwyr ifanc a gynhaliwyd ym Miwmaris o Ebrill 2-5. Mae'r ddau yn cael gwersi Clarinet, ac yn amlwg wedi mwynhau'r cwrs yn fawr iawn.

ARHOLIAD SIROL: Llongyfarchiadau i Kelvin ac Ian, meibion Mr a Mrs Eifion Roberts, 21 Bro Rhos, ac Aled Griffith, Llwyn Eithin ar eu llwyddiant yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Bydd Kelvin ac Ian yn derbyn eu tystysgrif yng Nghyfarfod Misol

Tŵr Gwyn, Bangor ym mis Mai.

CARNIFAL 1984: Penderfynwyd cynnwys cystadleuaeth newydd yn y Carnifal eleni, sef 'Yr Ardd Dwtiaf yn y Pentref'. Gall fod yn ardd lysiau neu lawnt blodau.

Hysbysebir y gystadleuaeth hon ddigon buan er mwyn i bawb gael amser i baratoi!

A wnaiff pawb sydd am gystadlu gysylltu â'r Ysgrifenyddes, Mrs Nan Owen, Berwyn, Saron (Portdinorwig 670763) cyn Gorffennaf 8, ac anfon tâl o 25c. Fe gaiff y beirniadu ei wneud yn ystod wythnos y Carnifal, Gorffennaf 8-14. Gwobrwyir yr enillydd ddiwrnod y Carnifal. Mae'r gystadleuaeth yn agored i Bethel, Seion a Llanddeiniolen.

Dymuniadau gorau i Steven W. Roberts, Llys Menai fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 14.

YR Y.M. AR S.4.C: Nos Lun y Pasg ar S4C gwelwyd y ffilm Aderyn Papur, ffilm yn sôn am effaith dau ŵr o Japan a ddaeth ar wyliau i bentref chwarel yng Ngwynedd. Ffilmwyd y golygfeydd chwarae snwcer yn yr Y.M. yn y Neuadd.

CYDYMDEIMLO: Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mr H. Roberts, Penrhos Villa a'r teulu yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â theulu'r diweddar Barchedig Jonathan Thomas a fu farw yn ddiweddar. Bu Mr Thomas yn weinidog ym Methel am gyfnod yn y chwedegau.

LLONGYFARCHIADAU: i Gôr Cadnant ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth i gorau yn Eisteddfod y Bontnewydd nos Lun y Pasg.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

DIOLCH - Dymuna plant a theulu y diweddar Mrs Nesta Jane Webb, 3 Craig y Don, Cwm y Glo, ddatgan eu diolch i'r holl gymdogion a'r ffrindiau, am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth. Diolch arbennig i Mr E.G. Owen, Parchn. R. Jones, R.M. Jones a hefyd Mr Myrddin Pritchard, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU i Islwyn Jones, Bron Eryri, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr J.C. Jones, 21 Dôl Afon, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Miss Hannah Jones ym Mhenygroes.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs K. Watkins, Dolwen, yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith yng Nghaernarfon.

MERCHED Y WAWR - Dathlwyd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, gyda chinio blasus ac yn dilyn, raglen o adloniant wedi ei threfnu gan Mrs Hannah Jones, y Llywydd. Bu i amryw o'r aelodau gymryd rhan, trwy ddarlennu rhan o ddrama neu roi sgwrs am enwogion a hoffent eu cyfarfod. Cafodd pawb fwynhad ar y cinio a'r adloniant a diolchwyd i Mrs Marjorie Roberts, yr Ysgrifenyddes am wneud y trefniadau.

Nos Fercher, Ebrill 18 daeth Mrs Pat Jones, Brynrefail, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Carol Houston, i gynnal noson. Dangosodd gasgliad hardd o wyau Pasg wedi eu haddurno mewn gwahanol batrymau, rai o wledydd tramor a

rhai wedi eu gwneud gartref.

Yna er syndod yr aelodau estynnwyd brws a phaent ac wy i bob un ac aed ati yn ddiwyd i drio llaw ar wneud campwaith. Cafwyd noson greadigol a hwyliog iawn. Diolchwyd i'r ddwy gan Mrs Verna Jones gyda'r gobaith y ceir noson arall yn eu cwmni cyn hir. Mrs Margaret Williams a Mrs Mair Williams roddodd y te a chacen y raffl, ac enillwyd hi gan Mrs Hannah Jones.

Yn y cyfarfod nesaf nos Fercher Mai 18 disgwylir Mrs Mary Vaughan Jones i gynnal noson. Ddydd Sadwrn Mai 12 cynhelir yr Ŵyl Wanwyn yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Nos Wener, Mai 18, bydd Miri Mai yn Neuadd John Phillips, Bangor.

POBOL Y CWM - Cafwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi, oedd wedi ei ohirio o'r Cyfarfod blaenorol ar Fawrth 15, wedi ei drefnu gan Mr R.H. Parry a Mr Llew Hughes. Cymerwyd rhan gan y trefnwyr ynghyd â Mrs K. Watkins, Miss E. Hughes, Mrs A. Hughes, Mrs H.M. Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Jones a Miss E. Davies a'r raffl gan Mrs H.M. Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs K. Watkins.

Mwynhawyd sgwrs ddiddorol gan Mr R.H. Parry yng nghyfarfod Mawrth 29, gan roi hanes safleoedd brodorion oes y cerrig, ynghyd â sleidiau yn dangos cylchoedd o feini a godwyd ganddynt uwchben Penmaenmawr. Roedd ganddo hefyd i'w dangos arfau cerrig wedi eu llunio yn gywrair gan y brodorion cynnar. Diolchwyd iddo gan y llywydd. Rhoddwyd y te oedd Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes, a'r raffl gan Mrs A. Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs R. Parry.

O'R YSGOL



Plant ysgol Bethel ac aelodau Adran yr Urdd a fu'n perfformio yn y Cyngerdd tuag at Gronfa Newydd goffa'r pentref. Codwyd dros £100.




Daeth Mr Taylor a Mr Cledwyn Jones o dîm achub Eryri i Ysgol Bethel yn ddiweddar i ddangos lluniau ac i sgwrsio â'r plant ynglŷn â'u gwaith. Yn y llun maent yn cael cymorth rhai o'r bechgyn i arddangos y grefft o gario rhywun clwyfedig oddi ar y mynydd.

ARDDANGOS "CROCODEIL CYFRWYS" COLIN

Dyma Colin Diamond (5 oed) o Fethel sy'n amlwg yn grefftwr addawol iawn. Tua blwyddyn yn ôl anfonwyd cynnyrch o eiddo Colin yn dwyn yr enw "Crafty Crocodile" i Arddangosfa Cadbury's o Gelfyddyd Plant. Er nad enillodd wobr yn yr adran dan saith oed derbyniwyd ei grocodeil, a wnaeth o focsys wyau, topiau poteli a phapur newydd, yn yr arddangosfa a chafodd Colin dystysgrif. Yn ystod 1983 bu'r Arddangosfa ar daith o Lundain i Gaerlŷr, ac yna i Stoke a Chaeredin. Ar ôl gorffen yn Lerpwl ar Mai 17 bydd yn symud i Newcastle. Gresyn na fuasai'n dod yn agosach atom er mwyn i bobl Bethel a'r fro gael cyfle i werthfawrogi gwaith Colin. Llongyfarchiadau calonnog iddo.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Dyddiadur y Mis

MAI
Mawrth, 1: **BETHEL**: Clwb Bro Bethel Pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd Goffa am 8.00.
DEINIOLEN: Clwb Elidir.
Iau, 3: **WAUNFAWR**: Sefydliad y Merched.
Gwener, 4: **LLANBERIS**: Te yr Henoed
WAUNFAWR: Noson Lawen yng Ngwesty'r Snodonia Park am 8.30 yng nghwmni Pari Tŷ'r Ysgol, Dinorwig a doniau eraill. Yr elw er budd Cronfa Muscular Dystrophy.
Sul, 6: **YR ARDAL**: Cymanfa Dosbarth Padarn yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris am 2.00 a 6 o'r gloch.
Llun, 7: **Calan Mai** - **LLANBERIS**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
Mawrth, 8: **LLANRUG**: Merched y Wawr - Arddangosfa Coganio gan Mrs Antoinette Hughes.
Iau, 10: **LLANRUG**: Clwb Blodau'r Grug - sgwrs gan Mr Orwig Williams, Elidir View
Gwener, 11: **WAUNFAWR**: Noson 'Paned a Chân' yn Neuadd yr Eglwys

am 6.30. Yr elw er cludo plant yr Urdd i'r Eisteddfod yn yr Wyddgrug.
Sadwrn, 12: **YR ARDAL**: Ffair Wanwyn Merched y Wawr yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.
Mai 14-19: Wythnos Cymorth Cristnogol
Llun, 14: **LLANBERIS**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
DEINIOLEN: Sefydliad y Merched
Mawrth 15: **DEINIOLEN**: Clwb Elidir Mercher, 16: **CWM Y GLO**: Merched y Wawr - sgwrs gan Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr
Iau, 17: **LLANBERIS**: Noson Goffi dan nawdd Staff y Clinic yn y Ganolfan am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.
YR ARDAL: Diwrnod agored yng Ngholeg Glynllifon.
Gwener, 18: **Dydd Ewyllys Da**.
PENISARWAUN: Eisteddfod Bentref **LLANBERIS**: Te yr Henoed.
YR ARDAL: Merched y Wawr - 'Miri Mai' yn Neuadd John Phillips, Bangor.
Sadwrn, 19: **YR ARDAL**: Cwrs Undydd dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog
Llun 21: **LLANBERIS**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
Mawrth 22: **LLANBERIS**: Gwibdaith Undeb y Mamau i Southport.

DEWCH AM DRO I'R BLAENAU


Bob blwyddyn mae miloedd o bobl yn teithio tua Blaenau Ffestiniog fel rhan o drip blyneddol Ysgol Sul, Sefydliad y Merched, Clwb y Pensiynwyr, Merched y Wawr neu ysgol. Mwyaf tebyg y bydd eu diwrnod ym Mlaenau Ffestiniog yn cynnwys ymweliad ag un neu fwy o'r pedwar atyniad a ganlyn - Rheilffordd Ffestiniog, Canolfan Fynydda Gloddfa Ganol, Argae Cynllun Trydan Dŵr Stwlan, neu Geudyllau Llechwedd. Wrth fynd adre' faint ohonynt fydd yn gwybod rhywbeth am y Blaenau Ffestiniog *go iawn* - y dref a'i thrigolion.

Er mwyn unioni'r diffyg hwn mae Adran Gynllunio Sir Gwynedd wedi llunio taflen, gyda chymorth disgyblion chweched dosbarth Ysgol y Moelwyn, i dywys yr ymwelydd mewn dull diddorol drwy'r dref. Dewiswyd taith gerdded o filltir a hanner ar hyd palmentydd

Blaenau Ffestiniog er mwyn rhoi rhyw ddealltwriaeth o hanes datblygiad a diwylliant y dref. Ymysg y pynciau a ddiffinir ar hyd y llwybr mae tyfiant y stoc dai, datblygiad y rhwydwaith rheilffyrdd, cynhyrchu trydan, bri a dirywiad y capeli, newidiadau ym mhatrymau siopa ac adloniant, twf trefol, tafarndai, ymdrechion diweddar i ddenu gwaith, hanes lleol, datblygiadau dinesig a chofebion lleol.


Cyhoeddir y daflen yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gerdyn ysgafn. Gellir ei phrynu yng Nghanolfan Wybodaeth Parc Cenedlaethol Eryri yn Isallt, Blaenau Ffestiniog neu mewn siopau lleol ac atyniadau twristaidd am 35 ceiniog yr un. Fel arall, gellir cael copi drwy'r post o Adran Gynllunio Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfeydd y Sir, Caernarfon, am 45 ceiniog (yn cynnwys cludiad).

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CROESAIR MAI



AR DRAWS:

1. Cawl (5)
5. Eginyn (5)
8. Heidio (5)
9. Cryfhau (5)
10. Yr anifail colledig (5)
11. Bachgennaidd (5)
12. Partner Efa (3)
13. . . . hwnt (2)
14. Merched (7)
19. Dogn Dei yn anghyffredin (7)
23. "Pawb at y peth y . . ." (2)
24. Draw yno (3)
26. Sâl (5)
27. Nifer (5)
28. Brwydro (5)
29. Golchi hunan (5)
30. "Na", er enghraifft (5)
31. Ynddo, mae nerth (5)

I LAWR:

1. Cynlluniwr adeiladau (7)
2. Galar mawr (8)
3. Cylla (6)
4. Anifail araf (6)
5. Ffon swynwr (6)
6. Gwareiddio (4)
7. Synau aflafar (5)
15. Meddai (3)

16. Defnydd i iachau clwy' (3)
17. Na ellir mesur y dyfnder (8)
18. Caniatad ysgrifenedig (7)
20. "Cymryd lle" (6)
21. Dad Moi ddim wedi gosod telerau (6)
22. Croes i sychu (6)
23. Adar duon (5)
25. Copa (4)

Un llythrennau yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR EBRILL

AR DRAWS: 3. Coedwig, 7. Coeden, 8. Gweddol, 9. Dyledion, 11. Dawn, 12. Dydd Sadwrn, 17. Cwsg, 18. Yn eisiau, 19. Syrthio, 20. Tirion, 21. Enfysau
I LAWR: 1. Pcedau, 2. Adeilad, 3. Caerdydd, 4. Digon, 5. Iseldir, 6. Telyn, 10. Ochain, 13. Ysguthan, 14. Weithiau, 15. Neithiwr, 16. Truenus, 17. Cyson, 18. Yfory.

Enillydd: Sian Esmor, Llwyn, Lôn Ddewi, Caernarfon.

BARGEINION DODREFN

I DDARLLENWYR YR ECO
Dewch â'r ticed hwn at
LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR Ffôn 291

**i gael: £5 oddi ar Wely Sengl
£10 oddi ar Wely Dwbl
£20 oddi ar '3 Piece Suite'
(un ticad am bob eitem)**

ORIAU AGOR: 9-7pm, 9-5pm Sadwrn
Ar gau: Sul, Mercher

Os nad ydych am dorri eich copi o'r Eco, dewch â'r cyfan efo chi i'w farcio'n unig.

CHWARAEON

GWADU'R TWYLL?

Yn dilyn yr adroddiad y mis diwethaf am dwyll Cwpan Llanrug, daeth ymateb buan gan Mr T. Jones, Rhos Rug, Llanrug. Mae ef yn anghytuno â stori Mr W.S. Griffith, Deiniolen, ac yn honni nad y cwpan yn y llun a ddangoswyd y mis diwethaf oedd y cwpan a gynigiwyd mewn cystadleuaeth yn Llanrug. Honna Mr T. Jones mai ar ddiwedd tymor 1934-35 y cynhaliwyd y gystadleuaeth ar Gae Plwyf, Llanrug. Dyma'r hanes fel y'i cefais ganddo.

Ar y Cae Plwyf y chwaraeai tîm Llanrug y pryd hynny, ac yr oedd ar Bwyllgor y Cae Plwyf angen codi arian i wneud gwelliannau i'r cae. Felly, penderfynwyd cynnal cystadleuaeth pêl-droed ar ddiwedd tymor 1934-35. Y Parch Morris Jones, Rheithor Llanrug oedd Cadeirydd y Pwyllgor Cae Plwyf. Penderfynwyd fod pob tîm yn talu 12 swllt i gael cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Ond ar wahân i'r un rheol hon, a bod pob tîm yn cadw at reolau pêl-droed, ni roddwyd unrhyw waharddiad ar nifer y tîmau a gâi gystadlu, ac arweiniodd hyn i gryn ddryswch a dadlau.

Roedd 42 o dimau i gyd wedi talu i gael cystadlu yn y rownd gyntaf, gan gynnwys Llanrug, Llanberis, Seion, Rhos Isa, Cesarea, Rhosgadfan a Chlwt y Bont. D.M. Pritchard, Llanrug a brynodd y Cwpan mawr i'w gyflwyno fel gwobr ar ddiwedd y cystadlu, a hefyd ddwy set o gwpanau bach i'w cadw am byth i'r ddau dîm a enillai eu ffordd i'r ffeinal. Yn anffodus, oherwydd diffyg rheolau, nid oedd yn ymddangos y byddai diwedd ar y rownd gyntaf. Er bod tîmau'n cael eu curo'n y rownd gyntaf, y cyfan oedd angen ei wneud oedd talu 12 swllt arall a chofrestru dan enw gwahanol! Felly roedd yn bosibl i'r un tîm chwarae fwy nag unwaith yn y rownd gyntaf. Oherwydd y cymhlethdod hwn, bu'n rhaid pennu dyddiad cau i'r gystadleuaeth – ond nid nes oedd ambell i dîm wedi chwarae tua thair neu bedair gêm dan wahanol enwau. Dyma'r achos i'r gystadleuaeth lusgo ymlaen am tua saith wythnos yn ystod misoedd yr haf! Daeth hanes y gystadleuaeth hirhoedlog i glustiau Cymdeithas Pêl-droed Gogledd Cymru, a byth er hynny, mae'n rhaid cael caniatâd i gynnal gystadleuthau o'r fath o'r tu allan i'r tymor.

Unwaith y pennwyd ar ddyddiad cau, buan y cafwyd gwared â'r tîmau oedd yn mynnu cystadlu drosodd a throsodd, gan adael y goreuon yn unig ar ôl i ymladd am y Cwpan. Aeth Clwt y Bont allan o'r gystadleuaeth yn y rownd go-gyn-derfynol.

Yn un o'r gemau cyn-derfynol roedd Llanrug yn wynebu tîm cryf o Rhos Isa, ond Llanrug a orfu o ddwy gôl i un, a T. Jones yn sgorio penalti i ennill y gêm i Lanrug. Yn y ffeinal roeddynt yn wynebu tîm D.M. (sef tîm Llanberis i gyd) a gynhwysai enwau enwog iawn yn y cyfnod hwnnw; rhai fel Dafydd Annie Dora, Twm Twm Rhosgadfan, Rol bach, lanto Williams, Dafydd

Jane Ann a Gwilym Bwtsiar.

Mae'r cwpan bach a enillodd T. Jones yn y gystadleuaeth honno ganddo heddiw – ond nid dyna ddiwedd y stori. Bwriad cynnal y gystadleuaeth oedd gwella cae pêl-droed Llanrug. Roedd angen ailosod wyneb ar un gôl – un ai ailhadu neu osod tywyrch ar y bocs penalti i gyd. Rhoddwyd y gwaith i Mr T. Jones, a rhoddwyd gorchymyn iddo gan y Pwyllgor Cae Plwyf i geibio wyneb y bocs penalti i gyd a rhoi tywyrch arno. Os oedd y ceibio yn waith caled, roedd cael digon o dywyrch i wynebu'r bocs i gyd yn dasg amhosib' bron i un dyn – ond daeth dros y broblem. Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i dorri'r dywarchen berffeithiaf, a honno i fod yn llathen sgwâr. Roedd punt o wobwr i'r un a allai dorri'r dywarchen orau. Yn naturiol, roedd yn rhaid cyflwyno'r tywyrch ar y Cae Plwyf ar noson arbennig i gael eu beirniadu! Cafwyd digon o dywyrch i ailwynebu'r bocs penalti, a hynny am ddim ond punt!

Diolch i Mr T. Jones am ei fersiwn ef o'r stori: ond tybed a oes hanesion eraill o'r un cyfnod?

RAS CAERNARFON LLWYDDIANT ETO I REDWYR Y FRO

Ddiwrnod ar ôl Rasus Traws-gwlad yr Urdd, roedd Ras Caernarfon, ac unwaith eto, roedd rhedwyr o fro'r 'Eco' yn amlwg ymhlith yr enillwyr. Yn y ras i fechgyn 12 a 13 oed Adrian Owen yn gyntaf ar y ras ddwy filltir, a rhedeg mewn amser da iawn o 10 munud 51 eiliad. Russell Williams (Bethel gynt) oedd yn ail.

Yn y ras dair milltir i rai dan 17 oed, daeth Mathew Ward a Martin Roberts o Lanrug yn seithfed a nawfed allan o 24 o gystadleuwyr.

Yn yr hanner Marathon, Michael Roberts o Lanberis oedd y rhedwr gorau o fro'r 'Eco', gan orffen cwrs o 13 a hanner milltir mewn 1 awr 16 munud a 54 eiliad, a diweddu'n 13eg allan o 131 o redwyr.

Rhedwr lleol arall a fu'n cystadlu yng Nghaernarfon oedd O. Eilir Jones, Llanrug. Defnyddiodd ef y ras fel paratoad ar gyfer ras bwysicach o lawer yn ystod mis Mai, sef Marathon Llundain. Pob dymuniad da iddo yn y ras honno. Cawn rywfaint o'i hanes yn y rhifyn nesaf.

RASUS TRAWS-GWLAD YR URDD

Aeth cynrychiolaeth dda o blant i Aberystwyth yn ystod y mis i redeg yn rasus traws-gwlad yr Urdd, ac er na fu pawb yn llwyddiannus, cafwyd diwrnod bendigedig, a phawb yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Roedd dros ddeg ar hugain o blant Ysgol Gynradd Llanrug yn rhedeg – yn y rasus i fechgyn a genethod dan 10, dan 11 a than 12 oed. Roedd dros gant yn rhedeg yn rhai o'r rasus hyn, a safon y rhedeg yn uchel iawn. Y tro hwn, ni fu unigolion na thîmau Llanrug yn ddigon cyflym i ennill gwobrau.

Yn y rasus i oedran ysgolion uwchradd, daeth Adrian Owen o'r Waunfawr (yn cynrychioli Ysgol Syr Hugh Owen) yn gyntaf drwy Gymru dan bymtheg oed; ymdrech arbennig o dda o gofio mai dim ond tair ar deg oed ydyw, ac y caiff gystadlu dan yr un oedran eto y flwyddyn nesaf. Yn yr un ras, roedd Geraint Jones o Fethel yn aelod o'r tîm buddugol dan bymtheg oed. Cyflwynwyd gwobrau i'r enillwyr gan Dic Evans o Aberystwyth, y rhedwr rhyngwladol.



Adrian Owen o'r Waunfawr yn derbyn y tlws am ennill y ras i fechgyn dan 15 oed.



Geraint Jones o Fethel yn derbyn y darian i'r tîm gorau o dan 15 oed.

RAS MOEL EILIO

Bnawn Sadwrn, Mai 5 cynhelir Ras Moel Eilio neu Ras y Bedol fel y mae rhai'n ei galw. Dyma'r trydydd tro i'r ras gael ei chynnal, ond y tro cyntaf iddi gael ei chynnal mor gynnar yn y flwyddyn. Mae tua wyth milltir o ras sy'n dringo i ben pedwar copa, sef Moel Eilio, Foel Gron, Foel Goch a Moel Cynghorion (hynny yw, y 'bedol' o amgylch Cwm Daethwch). Mae hyn yn golygu tua 3,000 o droedfeddi o ddringo caled.

Enillydd y ras y llynedd oedd Glyn Griffiths o Feddgelert mewn amser a dorrodd y record, sef awr, dau funud a chwe eiliad. Gan fod y ras eleni yn cyfrif tuag at Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru, gellir disgwyl cystadlu brwd, ac y mae gobaith y gwelir y record yn cael ei thorri eto.

Ardalwyr yr 'Eco', dowch i dreulio pnawn ar y llethrau uwchben Llanberis ac i wylïo a chefnogi rhedwyr lleol yn concro'r mynyddoedd. Mae'r ras yn cychwyn o Hostel Ieuencid Llwyn Celyn am 1.30 ym brydlon.

LLONGYFARCHION

Yn yr wythnos pan oedd yr 'Eco' ar fynd i'w wely daeth newyddion am lwyddiant dau o dimau'r fro.

TÎM IEUENCTID LLANBERIS

Nos Fercher, ar gae Llanrug, enillwyd Cwpan Ieuencid Cynghrair Caernarfon a'r Cylch gan dîm Llanberis, ar ôl curo tîm Caernarfon o 2 gôl i 1. Er i Gaernarfon bwyso'n drwm yn rhannau olaf y gêm, roedd tîm Llanberis yn llawn haeddu eu buddugoliaeth.

Yn naturiol, roedd rhai o gefnogwyr Caernarfon yn cwyno am faint y cae – "chwara' ffeinal ar postage stamp" medda un ohonynt – ond dyna fo, be' arall sydd i'w ddisgwyl o'r Cofis?

TÎM SNWCER Y GLEISION LLANRUG

Daeth Pencampwriaeth y Gynghrair i Lanrug am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Yn ôl rhai, dyma'r tro cyntaf i'r Bencampwriaeth ddod allan o Gaernarfon ers ugain mlynedd. Yn ogystal, daeth ail dîm Llanrug yn agos iawn i ennill dyrchafiad i'r adran gyntaf, gan ddiweddu'n drydydd yn yr ail adran.